

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 489 • Mehefin 2018 • 50c

Dathlu Doniau'r Dyffryn

(Hawlfraint : Llundain Llwyfan)



Fuoch chi'n gwylio? Fuoch chi'n gwranddo? Ar beth, tybed? Wel holl arlwy Eisteddfod yr Urdd dros wythnos y Sulgwyn yn ddiweddar. Os mai na yw'r ateb, yna fe gollasoch wledd o gystadlu o fore gwyn tan nos. Ond yn fwy na hynny, fe gollasoch gyfle i fwynhau talentau ein Dyffyn unigryw ni yn disgleirio ar lwyfan cenedlaethol. Do, fe ddisgleiriodd ieuencid ein hardal mewn meysydd di-ri.

Diau mai'r hyn a'n hunodd a'n hudodd fwyaf fel ardal oedd y wefr o weld Côr Adran Bro Dyffryn Ogwen yn hawlio'u lle ar y llwyfan enfawr nid unwaith, ond ddwywaith! Enillodd y criw ifanc hwn y drydedd wobwr yng nghystadleuaeth y parti unsain i flynyddoedd 6 ac iau, a'r wobwr gyntaf am y côr! Cwta dair blynedd sydd ers i'r Adran gael ei sefydlu gan Jane a Hywel Parry (Tregarth) ac Angharad Beech (Rachub), ac ers hynny maen nhw wedi mynd o nerth i nerth. Cynhelir ymarferion bywiog a hwyliog bob prynhawn Sul yng Nghapel Jerusalem, ble gwelir plant o bob rhan o'r Dyffryn yn uno ac yn mwynhau dod i adnabod ei gilydd a mwynhau perfformio.

Bu'n rhaid teithio i Lanfair ym Muallt a bod yn barod am saith o'r gloch y bore am ragbrawf - ie, 7! Bu rhai'n aros mewn caban yn y coed, eraill mewn llety gwely

a brecwast chwaethus, ambell un mewn iwert (math o babell dw i'n meddwl! - gol.) Ond fe gyrhaeddodd pawb y maes yn eiddgar, heb ddisgwyl mwy na'r wefr o fod yn rhan o wyl ieuencid fwyaf Ewrop. Ond roedd mwy i ddod. Roedd llygad pob rhiant wedi'i serio ar sgrin fach eu ffonau symudol am ddiweddariad a chanlyniad ar ap yr eisteddfod. Ac ni fu'n rhaid aros yn hir - ROEDDEN NHW WEDI CAEL LLWYFAN! AR Y DDWY GYSTADLEUAETH!

Hanes yw'r gweddill, ys dywed yr hen ddihareb, a chyn i neb droi bron, roedd y criw bach o Ddyffryn Ogwen ar y llwyfan mwyaf. Tybed nad oedd ffawd o'n plaid gyda chwmni lleol Jones & Whitehead yn noddi'r gystadleuaeth yn ogystal? Ond hwyrach mai gwell yw gadael i ddewin geiriau grynhoi'r hyn mae'r fuddugoliaeth hon yn ei olygu i bawb fu'n rhan o'r daith ...

Aethant i'r Genedlaethol ac yno Datganiad eithriadol
Roed yn wir a dod yn ôl
I Ogwen yn fuddugol.

Y Prifardd Ieuan Wyn

Porwch drwy dudalennau'r ysgolion i ddarllen am fwy fyth o lwyddiannau'r Urdd. Llongyfarchiadau i bawb!!

Ysgoloriaeth Geraint George

Yr un yw ein llongyfarchiadau i Beca Roberts, Cae'r Wern, Tregarth, ar ei llwyddiant yn ennill yr ysgoloriaeth arbennig hon. Ysgoloriaeth goffa ydyw er cof am y diweddar Geraint George, a'i nod yw hyrwyddo trafodaeth ac ymchwil ar faterion amgylcheddol. Ysgrifennodd Beca draethawd wedi ei ysbrydoli gan brosiectau amgylcheddol Dyffryn Ogwen yn cynnwys cynllun Ynni Ogwen y bu Beca yn gweithio arno am gyfnod trwy gynllun Twf Swyddi Cymru. Wedi hynny, bu'n gweithio fel Swyddog Cynladwyedd i Bartneriaeth Ogwen am gyfnod o flwyddyn cyn symud ymlaen i weithio i Ynni Cymunedol Cymru fel Swyddog Aelodaeth a Chyfathrebu. Mae hi'n parhau i rentu gofod swyddfa efo Partneriaeth Ogwen, ac mae ei holl gyd-weithwyr yn awyddus iawn i'w llongyfarch. Braf yw gweld un o'n pobl ifanc ni unwaith yn rhagor yn llwyddo ar lefel cenedlaethol, ac i ddod â phwnc gwirioneddol bwysig i sylw'r cyhoedd. Edrychwn ymlaen at gael darllen ffrwyth dy lafur, Beca.



Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Lowri Roberts.

Y golygydd ym mis Gorffennaf fydd
Derfel Roberts, Llys Artro,
84 Ffordd Carneddi, Bethesda,
LL57 3SG. 01248 600965
Ebost: hylaw@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 4 Gorffennaf
os gwelwch yn dda. Plygu
nos Iau, 19 Gorffennaf,
yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

DALIER SYLW: nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Dyddiadur y Dyffryn

Mehefin

- 16 Bore Coffi Clwb Nofio Gwynedd.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 21 Bingo Eglwys Sant Tegai. Neuadd
Talgai, Llandygai am 7.00.
- 23 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
- 25 Diwrnod Agored. 29 Ffordd Ffrydlas.
9.00 yb – 9.00yh. Elw - Cyf. Ysbyty
Gwynedd.
- 27 Cyfarfod Blynnyddol Cefnfaes.
Cefnfaes am 7.00.
- 30 Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol
Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen.
10.00 – 12.00.

Gorffennaf

- 02 Merched y Wawr Tregarth. Noson o
fwynhau "Te Bach".
- 04 Te Mefus yn Festri Bethlehem,
Talybont am 7.00.
- 05 Sefydliad y Merched Carneddi.
Gwibdaith Addysgiadol.
- 07 Bwrlwm Haf. Hwyl i Bawb ar Gaeau
Rygbi Bethesda. 2.00 – 6.00.
- 07 Bore Coffi Capel Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00.
- 14 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y
Brenin. 10.00 – 12.00.
- 14 Garddwest y Tair Eglwys. Ficerdy
Pentir. 1.00 – 4.00.
- 19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £20
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Rhoddion i'r Llais

- £20 Er cof am Tom, Robert, Ceinwen a Cyril oddi wrth Doreen, Maes Coetmor.
- £10 Llewela O'Brien er cof am ei mam, Catherine Mary Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw yn 60 oed ar 4 Mehefin 1978, ac i gofio am ei phenblwydd ar 17 Mehefin.

Diolch yn fawr

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned. Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mehefin

- £30.00 (67) Sheila V. Owen, Millbank, Dolhelyg, Talybont
- £20.00 (28) Catrin Williams, Gwernydd, Rynys, Llanllechid.
- £10.00 (48) Cemlyn Jones, 3 Erw Las, Bethesda.
- £5.00 (10) Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda.

Os am ymuno, cysylltwch â **Neville Hughes – 600853**



CYMRAG



Garddio

MEHEFIN

Dyma'r haf wedi cyrraedd ac mi fydd y dydd hiraf a throad y rhod yma'n fuan!
Mae'r holl oleuni ychwanegol a'r gwres yn golygu bod planhigion yn eu tymor tyfu ac mae hynny'n amlwg ym mhob cornel o'r ardd. Ond mae'r goleuni a'r gwres hefyd wrth fodd y chwyn – felly cadwch yr hof yn brysur.
Gyda llaw, ni ddylid defnyddio'r hof ar y gwely nionod gan eu bod yn gwreiddio'n agos i'r wyneb. Chwynnu gyda'r dwylo amdani felly ac, os ydych chi am arbed eich cefn, rhowch glustog dan y pengliniau!

Tasgau

1. Hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth.
2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Mae un drochfa dda yn well na sawl un ysgafn ac mae'n well gwneud hynny pan fo'r haul wedi gwanio.
3. Ewch i chwilio am y 'lladron' ar y tomatos yn gyson. Dydyn nhw'n gwneud dim ond dwyn nerth y planhigyn.
4. Bydd letus, rhuddygl [radish], nionod mân a thatws cynnar yn barod i'w bwyta.

5. Gosodwch y basgedi crog yn eu lle a llenwch eich potiau gyda blodau. Ar ddiwrnod poeth, mae rhai yn eu dyfrio gyda chiwbiau rhew.
6. Torrwch y lawnt bob wythnos.
7. Plannwch weddill y blodau blwyddol.
8. Defnyddiwch gansen os oes gennych blanhigyn gwan a hirgoes.
9. Gallwch docio llwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
10. Mae rhai garddwyr yn gosod cysgod ar y tŷ gwydr rhag iddo orboethi.
- Cysgodwch eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Mae awyru yn bwysig - hynny yw, agor neu gau'r ffenestri a'r drws fel bod angen.
- Yn hytrach na gosod darnau o botiau pridd ar waelod eich potiau defnyddiwch bolystyrene er mwyn cael draeniad effeithiol ac, wrth gwrs, mae'r potiau yn ysgafnach i'w trafod.
- Taenwch ddyrnaid o wrtaith dros fylbiau'r gwanwyn a'u cadw yn y pridd nes i'r dail wywo.
- Chwynnwch yn ofalus rhwng ac o amgylch eich pys a ffa a'r ffa dringo a gnewch hyn yng ngwres yr haul. Gallwch eu dyfrio ar ddiwedd y dydd.
- Erbyn hyn fe all eich planhigion tyner ifainc fynd allan i wres yr haul, ond bydd angen eu gwylio a'u dyfrhau yn gyson nes iddynt sefydlu.
- Mae'n bwysig iawn i binsio blaen dyfiant llwyni fel fuchsia rhag iddynt fynd yn hirgoes; fe fydd mwy o flodau wedyn.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Y Gerlan

Caren Brown

Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn,

2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640
heleddselwyn@hotmail.com

Babis newydd Gerlan

Llongyfarchiadau mawr i Sian a Steffan Rowlands, Rallt Isaf, ar enedigaeth eu merch fach Eli Mai. Mae ei brawd mawr, Jac, wrth ei fodd efo'i chwaer fach newydd.

Mae Siani a Dale Rallt Uchaf hefyd wedi cael ychwanegiad i'w teulu sef mab bach newydd, Leo, a brawd bach i Molly.

Colled

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Ann a Dafydd Fôn Williams, Stryd y Ffynnon. Bu farw Margaret Jones (Maggie), mam Ann yn ddiweddar. Bu Maggie, ei gŵr Twm a'r teulu yn byw yn Stryd Goronwy am flynyddoedd



cyn symud i Brynbella. Cofion cynhesaf atoch chi, Mefys, Stephen a'r teulu i gyd. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Michelle Gould, Gwernydd, sydd wedi colli ei modryb. Cofion cynhesaf atat a'r teulu Michelle.

Mae'n debyg bod nifer o bobl Gerlan wedi dod i adnabod Caroline, Rallt Isaf Gerlan dros y blynyddoedd gan ei bod wedi ymgartrefu yma o Iwerddon ers y 70au mae'n debyg. Bu farw Caroline yn ddiweddar yn dilyn cyfnod o salwch hir. 'Roedd yn gymeriad annwyl a diddorol a dwi'n siŵr bod gan nifer ohonom atgofion ohoni. Cofion at ei theulu a'i ffrindiau i gyd.

Salwch

'Rydym yn anfon ein cofion gorau at Gwen Pritchard, Parc sydd wedi bod yn yr ysbyty - gobeithio eich bod yn cryfhau.

Bu Dafydd Edwards, Glanrafon, Gerlan hefyd yn wael yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato.

Tân

'Roedd yn sioc fawr clywed am dân yn nhŷ Gwenno a Huw Jones, Fferm Gerlan. 'Roedd 'na dipyn go lew o ddifrod ond 'roedd yn dda clywed na chafodd neb niwed. Hoffai Gwenno a Huw ddiolch i gymdogion a ffrindiau fu'n helpu i lanhau a diolch arbennig i Cara am y pitsa!

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Lisa Williams, merch Trefor a Sandra Stryd Goronwy, sydd wedi llwyddo i gwblhau ei chwrs TAR(Tystysgrif mewn Addysg i Raddedigion) ym Mhrifysgol Bangor. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol.

Steddfod yr Urdd

Daeth llwyddiant i nifer o blant y pentref yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Roedd sawl un yn aelodau o Gôr Aelwyd Bro Ogwen ddaeth yn 1af a hefyd y Parti Unsain ddaeth yn 3ydd. Da iawn pawb! Nid ar y llwyfan yn unig y daeth rhagoriaeth, oherwydd cafodd Ithel Morris, Fferm Tanygarth, 1af gyda lluniadau 2d i ddisgyblion blwyddyn 7-9 gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn ail gyda gwaith creadigol 3d blwyddyn 7-9 (ady) ac yn 3ydd gydag argraffu ar ffabrig blwyddyn 7-9. Cafodd ei frawd, Idris Morris, gyntaf gyda gwaith creadigol 3d. Blwyddyn 3 i 6 (ady). Gwych hogia!

'Roedd Cadi Elen Rallt Uchaf hefyd yn fuddugol yn y gystadleuaeth rhyddiaith i bobl ifanc dan 19. Llongyfarchiadau mawr iti Cadi - da ni'n falch o dy weld yn datblygu ac yn llwyddo fel llenor ifanc.

Graddio

Llongyfarchiadau enfawr i Caleb Rhys, Stryd Isaf ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor.



Ysgol Bodfeurig



Bu’n fis prysur dros ben yn yr ysgol gyda phawb yn gwneud y gorau o’r tywydd braf er mwyn mwynhau llu o weithgareddau!

Eisteddfod yr Urdd

A hithau’n wyliau hanner tymor cafodd criw o’r ysgol eu codi’n fuan iawn am 4 o’r gloch y bore i deithio i lawr i Lanelwedd i’r Eisteddfod. Roeddent yno i gystadlu gyda’u Cerddoriaeth Greadigol. Perfformiodd y criw yn wych ac er na lwyddwyd i gael llwyfan y tro hwn, roedd y profiad o fynd i’r Eisteddfod a chystadlu yn erbyn plant o bob cwr o Gymru yn un amhrisiadwy. Mae’n debyg fod llawer ohonoch wedi mynd i’r Eisteddfod, a phetach wedi ymweld â’r arddangosfa Celf a Chrefft buasech wedi gweld gwaith Nel o flwyddyn 6. Llwyddodd Nel i ennill dwy wobwr am ei ffotograffiaeth a gemwaith – llongyfarchiadau mawr Nel, roedd dy waith yn werth ei weld ac roedd pawb acw yn falch iawn ohonot ti.

Swmbathon

Yng nghanol haul braf mis Mai roedd iard yr ysgol yn fwrlwm o blant a rhieni

yn cymryd rhan mewn sesiwn Zumba nodedig. Bu pawb yn dawnsio am dros awr o dan arweiniad gwyh Anti Roz. Diolch o galon iddi am roi ei hamser i helpu i gasglu arian i’r ysgol. Bydd yr arian yn cael ei wario ar wella’r ardal tu allan.

Diwrnod Lliwgar

Bellach mae cynnal diwrnod lliwgar wedi mynd yn achlysur blynyddol yn yr ysgol. Mae pawb yn dod i’r ysgol mewn dillad lliwgar gan ddod â phlanhigion, pridd a photiau gyda nhw i wneud yr ysgol yn hardd. Eleni chawsom ni mo’n siomi wrth i bawb weithio’n hynod o galed yn plannu planhigion lliwgar mewn potiau o amgylch yr ysgol.

Cyngor Ysgol

Bu’n gyfnod llawn prysurdeb i’r cyngor ysgol y mis yma am ddau reswm. Yn gyntaf roeddent wrth eu boddau wrth i’r gegin ac offer coginio roeddent wedi gweithio’n galed i’w brynu gyrraedd. Mae cryn edrych mlaen nawr i ddechrau ein gwersi coginio cyn yr haf! Yn ail, roedd gan

y cyngor dasg bwysig, sef rhoi cyflwyniad i’r Llywodraethwyr am eu gwaith hyd yma eleni ac – er gwaethaf y nerfau - rhoddwyd cyflwyniad gwyh gyda’r Llywodraethwyr wedi’u syfrdanu gyda’r holl waith oedd yn mynd ymlaen. Diolch i’r cyngor ac i Miss Emily am eu harwain.

Antur yn yr ardal leol

Cafodd plant blynyddoedd 3,4,5 a 6 brofiadau bythgofiadwy yn ddiweddar wrth fynd ar deithiau cerdded i Cwm Idwal ac i gopa’r Wyddfa! Gweithiodd pawb yn galed iawn i gyrraedd pen eu taith ac mae staff yr ysgol yn falch iawn o bob un ohonyn nhw am ddal ati a llwyddo. Diolch hefyd i Stephen o’r caffi ar waelod yr Wyddfa am roi lemond i blant blwyddyn 5 ar ôl cyrraedd i lawr o gopa’r Wyddfa ar un o ddyddiau poethaf y flwyddyn!

Athletau’r Urdd

Llongyfarchiadau i dîm atletau’r ysgol fu’n cystadlu yn atletau’r Cylch ar drac rhedeg Treborth. Er nad aeth neb ymlaen i atletau’r rhanbarth fe weithiodd pawb yn galed gan ddangos pwysigrwydd bod yn da sy’n cefnogi ei gilydd.

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

BYSUS D. J. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

SAMARIAID
Mac Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm



Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Yr Eglwys Unedig

Yr Ysgol Sul

Bu’r plant yn brysur iawn yn ddiweddar yn sefyll yr arholiad Llafar Cof, gyda Mrs Linda Brown yn eu gwranddo, a llwyddodd pob un ohonynt i ddysgu eu gwaith yn ardderchog. Mewn Cyfarfod Gwobrwyo arbennig ar Fai 20fed, derbyniodd pob un dystysgrif a gwobr ariannol. Gan fod nifer dda o’r plant yn aelodau o gôr a pharti Adran yr Urdd Dyffryn Ogwen, ac wedi mynd trwodd i’r Eisteddfod Genedlaethol, daeth yr aelodau eraill atynt i roi datganiadau i ni. Hyfryd yw cael nodi iddynt fod yn llwyddiannus ym Mrycheiniog a Maesyfed, gan gipio’r wobwr gyntaf efo’r côr a’r drydedd wobwr efo’r parti – llongyfarchiadau gwresog iawn iddynt, a diolch i’r rhai a fu’n gweithio mor galed gyda hwy.

Y Gymdeithas

Cafwyd noson ragorol i orffen y tymor, gan deithio i ‘Noddfa’, Penmaenmawr, i gael pryd o fwyd blasus dros ben. Daeth Nia atom i gynnal cwis, gyda phob bwrdd yn gwneud tîm, a chafwyd llawer o hwyl wrth geisio ateb y cwestiynau. Diolch i Nia, chwiorydd ‘Noddfa’, ac i Ceri a Minnie am drefnu’r cyfan.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Elfed a Rita Bullock yn eu profedigaeth o golli modryb, a hefyd â Mrs Phyllis Williams ar golli chwaer yn ddiweddar.

Gardd y Capel

Bu’r dynion yn brysur yn gwneud grisiau

i hwyluso mynediad i’r ardd, ac yn plannu llwyni yno. Diolch i Walter, Owen John a Dafydd Hughes am eu gwaith – mae Dafydd yn ffrind da i’r capel.

Cofion

Anfonwn ein cofion cywiraf at y rhai sydd yn methu ymuno â ni yn yr oedfaon – rydym yn meddwl amdano.

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd i dair o ieuenctid y capel: enillodd Beca Roberts Ysgoloriaeth Geraint George, daeth Buddug Watcyn Roberts yn gyntaf am farddoniaeth, a daeth Luned Elfyn Roberts yn drydydd am ganu’r piano. Braf hefyd oedd gweld llwyddiannau Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Brynrefail – Beti Rhys a Lowri Watcyn wedi cael wythnos brysur iawn! Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Cyhoeddiadau – gwasanaethau am 10 a 5 Mehefin 17: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans

Mehefin 24: Y Parchedig Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts (Cymun am 5)

Gorffennaf 1: Y Parchedig W H Pritchard

Gorffennaf 8: Bore: yng ngofal Gwenno

Nos: y Parchedig Marcus Robinson

Gorffennaf 15: Mrs Mair Penri

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Cerian Emlyn a Jac ar enedigaeth mab bach, Tomos Elis ar Fai 11eg. Mae hyn yn gwneud Dei a June Jones Rhoslan, Ffordd Bangor yn nain a thaid eto. Mae Cerian yn gweithio yng Nghylch Meithrin Cefnfaes, felly heblaw am Antis Mari a Iona, mae gan Elis bach ddigonedd o antis eraill hefyd.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Llinos, Rhes Douglas gynt, ar achlysur ei dyweddiad â Darren yn ddiweddar. Mae Llinos yn ferch i Mr. a Mrs. Phillip Thomas, 4 Rhes Douglas.



Clwb Ieuenctid Bethesda

Llongyfarchiadau i Ella Basinger ac Ellie Ball, aelodau clwb ieuenctid Bethesda sydd wedi casglu £190 tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Bu’r ddwy yn brysur yn cynnal nifer o weithgareddau. Da iawn genod!

Yn y llun gwelir Ella Basinger, Ellie Ball ynghyd â staff y clwb.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Emily Mai, Maes Coetmor, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 17 Mai. Gobeithio i ti fwynhau y parti!

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan at y rhai a fu’n yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mr. Joe Evans, Glanffrydlas a Mr. Heddwyn Griffith, Adwy’r Nant.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu mewn profedigaeth, sef:-

Mr. a Mrs. Gareth Jones a’r teulu, Pant Glas. Wedi colli eu chwaer yng nghyfraith, Mrs. Glenda Jones.

Mrs. Nance Owen a’r teulu, Bryntirion. Wedi colli ei chwaer, Mrs. Nellie Thieme, Capel Garmon ar 17 Mai.

Teulu’r diweddar Mr. Islwyn Morris, Tregarth.



Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00

ORIAU AGOR

Llun – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 16:00 a 20:00 – 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219

Marwolaethau

Margaret Louisa Jones

Ar 16 Mai, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Margaret Louisa Jones (Maggie), Tŷ Coetmor, Brynbella yn 92 mlwydd oed. Priod annwyl Mr. Tom Jones am bron i saith deg o flynyddoedd. ‘Roedd yn fam a mam yng nghyfraith ofalus i John a Bronwen, Ann a Dafydd, Joan a’r diweddar Rob, Meurig a Janice, Glenys a Dave, Janet ac Eirwyn. ‘Roedd yn nain a hen nain annwyl a charedig.

Cafodd ei geni ym Mraichmelyn, ei haddysgu yn ysgolion y Gerlan a Chefnfaes, gweithio a phriodi a chartrefu yn y Gerlan , ac yna yn Nhŷ Coetmor. Roedd yn wraig dawl a pharchus, yn barod ei sgwrs, ac yn aelod ffyddlon o Eglwys Crist Glanogwen. Byddai croeso cynnes i bawb ar aelwyd Tŷ Coetmor, gyda phaned a chacen!

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 24 Mai, yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlogfa Bangor, gyda’r ficer, Y Parchedig John Mathews a’r Parchg. Christina McCrea yn gwasanaethu, a Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Darllenwyd Salm gan ei hwyres, Naomi, a chafwyd teyrngedau i nain gan Mefys a Llinos. Claddwyd ei llwch ym mynwent Eglwys Coetmor.

Cydymdeimlwn â chwi, Mr. Jones, a’r teulu oll yn eich profedigaeth.

Eileen Hennessey

Ar 20 Mai, yn 84 oed, bu farw Mrs. Eileen Hennessey, 4 Cefn y Bryn. Gweddw Mr. Hugh Maurice Hennessey a mam a mam yng nghyfraith Paul a Diane, nain hoffus i Lynne a Wayne, a hen nain i Chloe ac Amy. ‘Roedd yn chwaer annwyl i Miss Phyllis Williams, Adwy’r Nant a Mrs. Pat Roberts, Ffordd Pant, yn chwaer yng nghyfraith i Maurice, Maureen a John a hefyd yn fodryb garedig.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogfa Bangor ddydd Mercher, 6 Mehefin.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Gorffwysfan

Cofiwch am y wibdaith i Southport, ddydd Mercher, 20 Mehefin. Cychwyn ger y gofeb am 8.30yb.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cofiwch am y Diwrnod Agored yng nghartref Eira a Joe, 29 Ffordd Ffrydlas, ddydd Llun, 25 Mehefin o 9.00yb hyd at 9.00yh. Elw at waith y Cyfeillion.

Eglwys Crist Glanogwen

Gwasanaethau:

Cymun Bendigaidd bob dydd Sul am 11:00. y.b, ac am 8:00.y.b. ar Sul cyntaf bob mis. Croeso i bawb ymuno â ni.

Taflen Crwydro Dyffryn Ogwen

Partneriaeth Ogwen

Ddiwedd Mai cyhoeddwyd taflen Crwydro Dyffryn Ogwen – taflen sy’n cynnwys 8 taith gylchol i’ch tywys ar hyd llwybrau hardd y Dyffryn. Ariannwyd y daflen trwy grant Cronfa Wirfoddol Gwynedd a chomisiynwyd Ymgynghoriaeth Sian Shakespear i greu’r daflen ar ein rhan. Mae’r adborth cychwynnol gan drigolion a busnesau’r dref yn gadarnhaol tu hwnt a gobeithio y bydd y daflen yn annog pawb i fynd i grwydro yn y Dyffryn. Os hoffech gopi o’r daflen, mae croeso i chi alw heibio swyddfa Partneriaeth Ogwen neu mae copiau wedi eu gadael efo nifer o fusnesau yn yr ardal.

Yn y llun mae Dafydd Meurig - Cadeirydd a Rheinallt Puw, Cyfarwyddwr Partneriaeth Ogwen efo Sian Shakespear.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i’r mis hwn

ER COF

RICHIE LLOYD ROBERTS

Milwr Cyffredin 19732
6th Bn.,
King’s Shropshire Light Infantry
A fu farw 9 – 6 – 1918
Yn 24 ml. Oed
Mab Robert a Catherine Roberts,
Rock Terrace Bethesda.
Hautmont Communal Cemetery.
Ffrainc
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i’r Llais)



DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853

Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Llais Ogwan
Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Ysgol Llanllechid

Genedigaeth

Llongyfarchiadau gwresog i Mr a Mrs Stephen Jones ar enedigaeth eu merch fach, Loti Glyn. Mae Loti fach yn ddigon o sioe ac mae pawb wedi gwirionni! Cofion cynnes atoch fel teulu oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid.

Llwyddiant Adran yr Urdd Bro Dyffryn Ogwen

Llwyddodd Adran Bro Dyffryn Ogwen i gipio dwy wobr ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed dros yr hanner tymor. Daethant yn fuddugol ar y Côr Adran Bl.6 ac Iau, ac yn drydydd ar y Parti Unsain i Adrannau Bl.6 ac iau. Roedd hanner o aelodau'r côr yn ddisgyblion o Ysgol Llanllechid, sef Chenai Chicanza, Mari Watcyn Roberts, Seren Roberts, Gwenno Beech, Gruffudd Beech, Medi Tipton, Ffion Tipton, Llinos Ball ac Angharad Ball. Llongyfarchiadau fil i chi am roi Dyffryn Ogwen ar y map yn yr Eisteddfod Genedlaethol!

Anrhydedd yn Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau gwresog i Idris John Temple Morris ar ennill y wobr gyntaf am greu gwaith creadigol. Ardderchog Idris!

Diolch

Llawer iawn o ddiolch i Ms Rachel am ei gwasaneth i Ysgol Llanllechid. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol a pheidiwch â chadw'n ddiarth Ms Rachel!

Blodau Haul

Mae'r blodau haul a'r planhigion eraill yn nosbarth Mrs Wilson yn tyfu ac yn tyfu, a'r plant yn brysur yn eu mesur yn wythnosol. Cyn gwyliau'r hanner tymor, daeth y rhieni i'w prynu. Diolch o galon i chi rieni am fod mor hael eich cyfraniadau!

Bachgen Bach Toes

Bu dosbarth Mrs Williams, sef plant bach Blwyddyn 1, yn brysur yn ysgrifennu ac yn creu y 'bachgen bach toes' cyn hanner tymor, a chafwyd gwledd!



Glanllyn

Treuliodd dosbarth Mr Stephen Jones amser bendigedig ar lannau Llyn Tegid yn yr heulwen. Diolch i bawb am sicrhau profiadau gwerthfawr i'n disgyblion.



Ysgol Arweiniol Greadigol

Fel rhan o'n gwaith ym maes creadigrwydd, ail gynlluniodd y disgyblion hynaf ein cyntedd gyda help Mrs Anna Griffith, ac mae'n werth ei weld! Edrychwn ymlaen at yr agoriad swyddogol cyn diwedd tymor yr haf. Welwch chi'r nodau clustiau yn ffermydd Tan y Bwlch, Fferm y Bryn, Tan y

Garth a Corbri? Welwch chi'r llwynog o'r soned enwog? Welwch chi fedd R.W.Parry ym mynwent Coetmor? Welwch chi'r ffatri sanau a'r merched wrthi'n brysur yn eu creu ar gyfer y milwyr o Fethesda ar adeg y Rhyfel Byd Cyntaf? Dyma ffordd eithriadol o dda o ddysgu am ein hanes a'n traddodiadau lleol.

Sioe Ail Ryfel Byd

Gweithgaredd arall oedd yn tynnu sylw'r plant at hanes eu teidiau a'u cyndeidiau oedd y sioe "Glenys y Siop". Bu'r plant yn gwisgo i fyny ac yn actio'r gwahanol gymeriadau oedd yn mynd i'r siop gyda'r llyfrau dogn. Roedd hi'n rhyfeddod llwyr i'r disgyblion sylweddoli faint o fwyd oedd ar gael i bara am wythnos gyfan. Sonwyd hefyd am effaith yr ail ryfel byd ar wahanol rannau o Gymru ac "Abertawe'n fflam". Diolch i'r

actores Anwen Carlisle am ein diddanu a'n dysgu.

Plannu Tatws

Diolch i Mrs Tegid am ddysgu'r plant sut i blannu tatws. Edrychwn ymlaen at gael eu blasu cyn gwyliau'r haf. Diolch hefyd i Mr Tegid am ddod draw i wneud dipyn o waith caib a rhaw i'n cynorthwyo. Rhaid cofio hefyd am fam a tad Idris a Margiad, Tan y Garth, a mam a tad Leusa ac Elan, Bronnydd Uchaf am ddod â tail i ni. Help mawr!

Llythyr

Annwyl Olygydd Hoffem dynnu sylw eich darllenwyr at y rhaglen feistr MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Amcan y rhaglen yw i hyrwyddo dealltwriaeth o'r Gymru gyfoes o safbwynt sawl disgyblaeth: gwleidyddiaeth, hanes a'r gwyddorau dynol. O'r herwydd, mae'r cynllun yn cynnig cyfle gwyh i fagu dealltwriaeth drylwyr o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol Cymru. Mae nifer o gyn-fyfirwyr wedi mynd ymlaen i ddatblygu gyrfaoedd llwyddiannus mewn meysydd megis newyddiaduraeth, lobiö a chyfathrebu gwleidyddol, gweinyddiaeth gyhoeddus, neu wedi defnyddio'r cwrs fel sail ar gyfer gwaith ymchwil PhD.

Mae'r cynllun yn rhan ganolog o waith Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru / WISERD@Aberystwyth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Golyga hyn bod y myfyrwyr yn medru elwa o astudio o fewn canolfan ymchwil weithgar sy'n lleoli achos Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach. Blwyddyn yw hyd y cwrs a gall myfyrwyr ymgeisio am ysgoloriaethau gan gynnwys grantiau Pantyfedwen (dyddiad cau 30.6.18) ac Ysgoloriaeth Feistr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (dyddiad cau 11.7.18)

Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r gwrs (gan gynnwys sut i ymgeisio ar gyfer yr ysgoloriaethau uchod) cysylltwch â Dr Huw Lewis (ffôn: 01970 628638 / ebost: hhl@aber.ac.uk) neu gweler cwps. aber.ac.uk.

Yn gywir
Huw Lewis

Ysgol Abercaseg

Faint o siwgr sydd yn ein bwyd?

Yn ddiweddar, mae plant blwyddyn 2 wedi bod yn trafod ‘Faint o siwgr sydd yn ein bwyd?’. Fi fy hun sef thema’r tymor. Fe gododd y drafodaeth – ‘Faint o siwgr sydd yn ein bwyd?’. Felly dyma fynd ati i ddarganfod hynny. Bu’r plant yn brysur yn pwysu a mesur cynhwysion eu hoff fwydydd er mwyn darganfod faint o siwgr oedd ynddynt. Roedd y plant yn teimlo eu bod nhw wedi dysgu cymaint ac roeddynt yn awyddus i ddangos yr hyn a ddarganfuwyd i’w rhieni. Felly penderfynwyd creu arddangosfa i ddangos eu darganfyddiadau. Braff oedd gweld y plant yn tywys eu rhieni i ddangos ac egluro’r prosesau.



Diwrnod India

Cafwyd prynhawn o weithgareddau wedi ei drefnu gan Ffrindiau’r Byd i ddysgu am ddiwylliant, bwyd a thraddodiadau India. Trefnwyd gweithgareddau i’w gwneud yn y dosbarth. Bu pawb yn brysur fel lladd nadroeddyn cwblhau gwaith celf a’u harddangos yn y dosbarthiadau.



Ffarwelio

Rydym yn ffarwelio a Mrs Annette Williams a fu’n aelod gwerthfawr o staff yr ysgol. Diolch iddi am ei chefnogaeth a’i gwaith caled wrth gefnogi’r disgyblion. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.
Yn ogystal â ffarwelio â Mrs Williams rydym hefyd yn dymuno’n dda i Miss Elin Jones a fu’n fyfyrwraig yn yr ysgol.

CHWILAIR

ENILLWYR Y CHWILAIR

D	A	A	A	L	W	Y	N	R	O	W	L	A	N	D	S	W	F	H	R
O	I	G	W	E	N	D	A	B	O	W	E	N	E	J	L	C	M	B	V
R	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W
I	S	E	H	G	U	H	N	E	W	R	I	E	M	A	N	H	O	J	H
S	U	Y	E	L	K	C	U	B	H	T	E	B	A	Z	I	L	E	Z	M
S	E	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	S	Q	U	S	O	F	R	P
H	L	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	E	N	O	Y	R	I	A	S
A	F	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R	N	H	C	Q	S	H	W	E
W	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	O	E	P	T	E	T	N	C
B	D	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	J	V	V	D	N	C	E	B
B	B	F	R	F	O	G	J	V	I	I	R	Y	R	X	I	O	M	W	H
T	U	T	O	S	K	O	P	W	R	C	M	R	K	C	B	J	O	O	R
C	L	X	M	A	I	R	J	O	N	E	S	R	V	R	Y	N	H	N	S
T	L	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	A	C	W	O	Y	S	Y	C
R	O	A	I	X	N	I	L	X	J	J	M	P	B	W	T	L	E	L	X
M	C	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	W	I	L	F	I	E	S	R
Z	K	Q	R	O	C	T	D	G	W	S	L	U	Z	E	B	R	E	O	A
J	R	E	V	I	L	O	A	R	A	S	A	H	T	E	R	A	G	R	K
J	C	R	O	S	E	M	A	R	Y	W	I	L	L	I	A	M	S	L	M
L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg o ENILLWYR Y CHWILAIR tros y ddeg mlynedd diwethaf i’w darganfod, Mae un clw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn GORFFENNAF 2. Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.
Degau ohonoch yn gwylio rhaglenni plant yn ôl pob golwg, gan fod y rhaglen CYW wedi ei roi fel un o’r atebion i’r chwilair y mis diwethaf, ond

rhaglen goginio DUDLEY oedd yr ateb roeddwn ei eisïau. (‘Dydlei’ fel yr ymddangosodd ar yr Iplayer os wyf yn cofio yn iawn, ond eto mae’n ddigon posib mai llithriad ar fy rhan i oedd y sillafu). Ta waeth am hynny, enwau rhai sydd wedi dod allan o’r het i ennill y wobwr sydd i’w darganfod y mis yma. Pob hwyl! **Dyma atebion Mai :-** Ar Werth; Band Cymru; Ceffylau Cymru; Cefn Gwlad; Cegin Bryn; Dudley; Fferm Ffactor; Garddio a Mwy; Heno; Noson Lawen; Pobl y Cwm. **Dyma enwau’r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Gwenda Bowen, Gerlan; Marilyn Jones, Glanffrydilas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth. **Enillydd Mai oedd:-** Marilyn Jones, 1 Glanffrydilas, Bethesda.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018

16 Mehefin - Cefnfaes - Clwb Nofio Gwynedd

23 Mehefin - Cefnfaes - Plaid Cymru

30 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

07 Gorffennaf - Cefnfaes - Capel Jerusalem.

14 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

08 Medi - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

22 Medi - Cefnfaes - Eglwys St. Tegai

29 Medi - Cefnfaes - Plaid Cymru.

06 Hydref - Cefnfaes - Gorffwysfan.

13 Hydref - Cefnfaes - Cronfa Tracy Smith

20 Hydref - Cefnfaes - Eglwys St. Cedol.

27 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

03 Tachwedd - Cefnfaes - Neuadd Talgai.

10 Tachwedd - Cefnfaes - Clwb Camera

24 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

24 Tachwedd - Cefnfaes - Cronfa Cancr y Prostrat.

01 Rhagfyr - Cefnfaes - Plaid Lafur

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.

Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

CYFARFOD BLYNYDDOL

YN Y GANOLFAN

NOS FERCHER, 27 MEHEFIN

AM 7.00YH

CROESO I BAWB

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

MEHEFIN 26

GORFFENNAF 10, 24 a 31

am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CLWB NOFIO GWYNEDD

SADWRN, 16 MEHEFIN

10.00 - 12.00

MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI PLAID CYMRU

SADWRN, 23 MEHEFIN

10.00 - 12.00

MYNEDIAD : £1.00

I hysbysebu yn Llais Ogwan,

Neville Hughes 600853

(nev_hughes@btinternet.com)

Neuadd Ogwen

Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Sadwrn, 30 Mehefin

10.00 - 12.00

Mynediad: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CAPEL JERUSALEM

SADWRN, 7 GORFFENNAF

10.00 - 12.00

MYNEDIAD: £1.00

Caffi Coed y Brenin

Bore Coffi NSPCC

Sadwrn, 14 Gorffennaf

10.00 - 12.00

Mynediad: £1.00

ST. MAIR, ST. TEGAI a ST. CROSS

Garddwest 3 Eglwys

Ficerdy Pentir

14 Gorffennaf, am 1.00

Stondinau, raffl, gemau plant, Lluniaeth, cacennau, ayyb

Mynediad: £2.00; Plant 50c.

FESTRI BETHLEHEM TALYBONT

Te Mefus

Nos Fercher,

4 Gorffennaf am 7.00yh

Marchnad Ogwen

Gorffennaf 14eg

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Awst 11eg

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Medi 8fed

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk

Facebook

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Diwrnod Rhodd
Dathlwyd diwrnod ein nawddsant St Tegai ar Fehefin 5ed eto eleni, ble y derbyniwyd rhoddion tuag at gynnal ein heglwys gan ffrindiau, cymdogion y pentref a chefnogwyr eraill. Diolch o galon i chi i gyd.

Gweithgareddau mis Mehefin
Cynhelir Bingo'r Eglwys ar Fehefin 21ain am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai yn y pentref. Mae digon o hwyl ar y noson! Mae'r eglwys hefyd yn cynnal stondin anrhegion a llyfrau ail-law yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Llun Mehefin 25ain. Dewch draw!

Garddwest y Tair Eglwys
Bydd yr Arddwest boblogaidd yma ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14eg 2018 yn Ficerdy Pentir rhwng 1.00 a 4.00p. Mae digon o amser gennych i gasglu cyfraniadau i stondinau amrywiol - anrhegion a nwyddau bychain newydd yn dderbyniol iawn! Mae Nerys, Ann a Rhian yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad.

Edrychwch allan am docynnau y Raffl Fawr!

Garddwest Penrhyn
Dyma ddyddiad i'ch dyddiadur! Cofiwch am arddwest St Tegai ym Mharc Penrhyn drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Richard Douglas Pennant. Bydd y garddwest ar brynhawn Sadwrn olaf mis Awst (sef penwythnos Gŵyl y Banc), Awst 25ain gyda stondinau, adloniant a lluniaeth. Croeso i bawb.

Gwasanaethau Sant Tegai
Nos Sul Mehefin 24ain am 5 y.h. gwasanaeth Taizé Bro Ogwen
Y drefn arferol yn St Tegai yn y mis yw: Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Cydymdeimlo
Mae Joan Willis, Is y Coed, wedi colli ei mam, sef Mrs Margaret Jones, Tŷ Coetmor, Bryn Bella. Rydym yn cydymdeimlo gyda hi a'i theulu.

Pen-Blwyddi
Dathlodd dau o drigolion y pentref eu pen-blwydd yn ddiweddar:
Mary Robinson, Fern Cottage, yn 93, a Robin Jones, Rhif 14, yn 92 - Da te!
Mae'r ddau i'w gweld o gwmpas y pentref.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Sue Jones, Lilac

Cottage, ar ddod yn Nain.
Ganwyd Iwan Glyn, sef mab i John a Ruth, Penbryn Isa ,Talybont.Croeso mawr.

Gweithgaredd
Cofiwch am yr Ardd Agored yn Llys y Gwynt, Gorffennaf 1af rhwng 11 a 4 o'r gloch. Dewch i gefnogi .

Eglwys St. Tegai, Llandygai

21 MEHEFIN
BINGO yn Neuadd Talgai am 7.00

25 MEHEFIN
Stondin anrhegion a llyfrau ail-law yn Ysbyty Gwynedd

14 GORFFENNAF
GARDWEST y 3 EGLWYS
Ficerdy Pentir 1.00 – 4.00

25 AWST
GARDWEST ST. TEGAI
Parc y Penrhyn (prynhawn)
Stondinau, adloniant, lluniaeth.
Croeso i bawb.

Balchder Bro Ogwen

Cynhaliodd Balchder Bro ei gyfarfod blynyddol ar 23 Mai, gan ail-ethol Neville Hughes yn Gadeirydd, Walter Williams yn Is-gadeirydd, a Paul Rowlinson yn Ysgrifennydd a Thrysorydd. Yn ei sylwadau, nododd Neville bod llawer o bobl yn canmol y gwaith hel sbwriel gan Lucinda ac wedyn Beca ac Adam. Roedd y “Bethesda Litterpickers” hefyd yn gwneud gwaith da. Yn ystod y misoedd diwethaf roedd Balchder Bro wedi hel sbwriel gydag Ysgol Llanllechid, wedi hel ym Mron Bethel, Rachub ac yn fwy diweddar wedi ymuno â'r “Bethesda Litterpickers” a nifer dda o wirfoddolwyr un noson lawog i glirio rhan helaeth o Rachub a'r cyffiniau.

Cyflwynodd Paul adroddiad ariannol, gan ddiolch i Gyngor Cymuned Bethesda am ei grant blynyddol o £1,000. Cafodd y rhan fwyaf o'r arian ei wario ar y basgedi crog ar Stryd Fawr Bethesda a'r llynedd roedd Balchder Bro wedi gallu cynnal diwrnod llywyddiannus lansio Egin Ogwen a diwrnod gwasgu afalau i wneud sudd. Rydym wedi gwneud cais am grant loteri i wneud gardd



gymunedol ac yn disgwyl canlyniad y cais.

Cafwyd trafodaeth am y basgedi crog, a fydd wedi'u gosod unwaith eto erbyn i *Lais Ogwan* ymddangos, y cynlluniau hel sbwriel a'n bwriad i blannu rhagor o fylbiau yn yr hydref. **Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau am lefydd da i blannu bylbiau yn y Dyffryn ac unrhyw gymorth i'w plannu!**

Os hoffech awgrymu llefydd i hel sbwriel neu blannu bylbiau, cysylltwch â Paul Rowlinson, ar y rhif (01248) 605365 neu drwy e-bost: paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk

Ysgol Dyffryn Ogwen

Llwyddiannau Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i'r rhai a oedd ar y llwyfan yn y gystadleuaeth Cerddorfa/Band dan 19 oed - da iawn bawb.
Fe wnaeth Luned Elfyn yn wych i ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Unawd Piano Bl.7-9, gyda pherfformiad anhygoel ar y llwyfan brynhawn Mercher.
Bu pedwar o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus yng nghystadlaethau llenyddol yr Urdd eleni:
Martha Jones - y drydedd wobwr am ysgrifennu darn o ryddiaith i ddisgyblion blwyddyn 7.

Begw Evans - yr ail wobwr yn y gystadleuaeth rhyddiaith i ddisgyblion blwyddyn 9.

Cadi Roberts - y wobwr gyntaf o dan 19 oed am ysgrifennu cyfres o e-byst rhwng dau ffrind a wahanwyd.

Martha Glain Evans - y drydedd wobwr dan 19 oed am ysgrifennu ymson neu fonolog.



Martha Evans a Cadi Roberts

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

Dyma'r llwyddiannau a gafodd ein disgyblion yn y cystadlaethau Celf a Chrefft:
Gwaith Lluniadu 2D Bl.7,8 a 9
Ail safle - Ithel Temple Morris

Gwaith Creadigol 2D Bl. 7, 8 a 9
Safle cyntaf - Ithel Temple Morris

Gwaith Creadigol 3D Bl. 7, 8 a 9 (Unigol neu Grŵp)
Ail safle - Idwal Temple Morris
Gwaith Creadigol 3D Bl. 7, 8 a 9
Safle cyntaf - Ithel Temple Morris

Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 7,8 a 9
Trydydd safle - Ithel Temple Morris

Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd!

Gig Candelas
Trefnwyd gig yn Neuadd Ogwen gyda'r band Cymraeg poblogaidd Candelas gan griw bychan o'r chweched, a braf oedd eu croesawu ar brynhawn Dydd Iau y pedwerydd ar hugain o Fai i chwarae gig gyffrous i ddisgyblion blwyddyn saith ac wyth yr ysgol. Cafodd y dorf gyfle i glywed rhai o ganeuon diweddaraf y band fel 'Ddoe, Heddiw a Fory' a 'Gan Bo Fi'n Gallu' ymysg nifer o'u caneuon poblogaidd eraill. Yn ogystal â hyn chwaraeodd Candelas eu fersiwn nhw o 'Rhedeg i Paris' a gwelwyd y disgyblion i gyd yn dawnsio'n wyllt ac yn gweiddi canu wrth ddod ag atgofion braf yr Ewros yn eu hôl! Cafodd rhai aelodau o'r chweched dosbarth gyfle i reoli'r sain a'r goleuadau yn ystod y gig - profiad arbennig iawn iddyn nhw. Ariannwyd y gig gan arian y Strategaeth Iaith - diolch i Gyngor Gwynedd am y nawdd.
Cadi Roberts blwyddyn 12

Perfformiad 'Hairspray'
Bu nifer o ddisgyblion blynyddoedd 8 a 9 yn Venue Cymru yn ystod mis Mai yn gweld y sioe gerdd 'Hairspray'. Roedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a phawb wedi mwynhau'r sioe gerdd yn fawr!

Cystadleuaeth Athletau Eryri
Huw Davies - 1af disgen
Jack Hipkiss Hughes - 2ail 300m
Ela Oliver - 1af 300m
Natalie Owen - 1af disgen
Erin Davies - 2ail naid hir
Erin George - 1af clwydi

Bydd Erin George, Huw Davies, Ela Oliver a Natalie Owen yn cynrychioli Eryri ym mhencampwriaeth Cymru yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i bawb am gymryd rhan.

Brocoli a Saws Oren

Cynhwysion
1 oren.
½ - 1 cwpanaid o sudd oren pur.
1 llond llwy bwdin o siwgr brown.
Hufen sengl neu ddwbl.
Blawd corn.

Dull
Gratio croen yr oren yn fân.
Gwasgu sudd yr oren i jwg.
Ychwanegu'r sudd oren pur.
Toddi'r siwgr yn y sudd a'r croen mewn microdon.
Cymysgu'r blawd corn efo ychydig o ddŵr neu sudd oren, a'i ychwanegu at y sudd a'r croen oren.
Ychwanegu'r hufen a'i droi.
Yna ei roi ar ben y brocoli.

Mae'n flasus hefyd efo moron, ysgewyll neu fresych. Gallwch ei ddefnyddio hefyd mewn pwдинаu. Dydi o ddim yn drwm o ran calorïau. Mae'r cynhwysion hyn yn ddigon ar gyfer 5 o bobl.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd
Llandygái ☎ 600744

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Richard Gwilym Jones, Llwybrmain, yn eu profedigaeth. Bachgen o'r Mynydd oedd Richard. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs. Kathleen Williams, Penrhiw, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Roedd Kath yn wreiddiol o Fethesda, ond wedi byw yn y Mynydd ers blynddoedd.

Diolch

Diolch i Karen Duggan am drefnu te prynhawn yn y neuadd, gyda set deledu fawr i wylu'r briodas. Cafwyd amser hyfryd gydag Alison, Jode a Jo yn gweini. Roedd y wledd o Gaffi Coed y Brenin. Diolch yn fawr i chwi!



Caerhun a Glasinfryn

Cylch Glasinfryn

Daethom â Hen Greiriau i'r Cylch nos Fawrth 9 Mai i gael barn Nia Williams ar eu gwerth. Cawsom hwyl yn arddangos hen bethau fel llestri sydd wedi bod yn cuddio mewn cwpwrdd cornel neu ddresel am flynyddoedd. Pethau yr ydym wedi'u hetifeddu ac yn meddwl nad oes fawr o werth iddynt. Gemwaith oedd yn cael y sylw mwyaf oherwydd gwerth aur ac arian. Daeth ambell i degan i'r golwg, oriawr, stampiau a chardiau post, yn wir, pob math o bethau diddorol. Noson ddifyr dros ben!
'Roedd pawb wedi mwynhau - oedd ambell un wedi mynd adref dipyn

Ysbyty

Bu Karen Duggan yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mawr obeithiwn eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn. Mae Geraint Hickman hefyd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan i chi.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Suliau:
1af a'r 3ydd Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd Cymun Bendigaid

Dechreuir y gwasanaethau am 9.30 y.b. Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn cymun gartref cysylltwch â'r Parchedig Christina McCrea (Bangor 372249).

Tîm Pêl-droed Mynydd Tigers

Llongyfarchiadau i'r tîm dan 7 oed lwyddodd i gyrraedd y rownd gyn-derfynol mewn twrnament yng Nghyffordd Llandudno yn ddiweddar. Yn y llun gwelir Dafydd Beech (hyfforddwr), Gruff, Geth, Max, Abi, Charlie, Tobie, Tomi, Leon, Mathew Williams (hyfforddwr).

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. L. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW'R
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

cyfoethocach tybed? Diau y bydd na hen droi a throsi a thyrchu yn y droriau a'r cypyrddau o hyn ymlaen rhag ofn i ryw beth gwerthfawr fod yn cuddio ynddynt.

Diolchwyd i Nia gan Glenys a bu cryn drafod wrth fwynhau y baned a baratowyd gan Jocelyn, Marian a Carol.

Ar 11 Gorffennaf awn am ymweliad ag eglwys Santes Gwenllwyfo, Dulas i gael sgwrs a gweld y ffenestri lliw unigryw sydd yn yr eglwys, gyda swper i ddilyn yn Nhraeth Coch. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r trip. Cysylltwch â Mair Griffiths 352966, am fwy o wybodaeth.

Neges gan y golygydd: Tybed oes unrhyw un sy'n byw yn y pentref yn awyddus i helpu i gasglu newyddion? Byddai'n braf cael cynnwys mwy am fwrllwm y pentref bob mis! Cysylltwch â Mair neu unrhyw un o'r golygyddion os ydych yn fodlon.

‘Plentyn y Rhyfel’

gan Wyn Thomas (parhad)

(golygwyd gan Derfel Roberts)

Pennod 2

Roedd Hitler hefyd yn gwybod am fanteision radio fel arf propaganda ac roedd Joseph Goebbels, Gweinidog Propaganda a Goleuo'r Cyhoedd yn llywodraeth y Natsiaid yn feistr ar hynny. Un o'r pethau a wnaeth oedd defnyddio'r bradwr William Joyce, neu 'Lord Haw Haw', fel y'i gelwid, i ddarlledu negeseuon am lwyddiannau'r Almaen ar gyfer gwrandawyr ym Mhrydain (gwybodaeth ffug yn aml). Roedd yn gallu codi ofn trwy gyfeirio at bethau cyfarwydd fel y tro hwnnw pan ddwedodd y byddai'r Luftwaffe yn ymosod ar Ffair Borth y diwrnod canlynol. Ond er i'r llywodraeth siarsio pobl i beidio â gwrando ar Haw Haw, roedd o'n gallu denu cynulleidfa. Roedd hynny oherwydd ei fod yn gwneud ffŵl ohono'i hun yn aml, fel y gwnaeth pan ddwedodd fod H.M.S. Glendower wedi ei suddo. Roedd pobl yr ardal yn gwybod mai canolfan forwrol ar y tir oedd H.M.S. Glendower, sef lle wedi'i addasu o wersyll Butlins ger Pwllheli (ac a drowyd yn ôl wedi'r rhyfel i fod yn ganolfan gwyliau). Yn ddiweddarach yn fy mywyd gwaith cefais y fraint o gydweithio gyda Wynford Vaughan Thomas, cyn-ohebydd gyda'r BBC yn ystod y Rhyfel, pan oeddem yn gwneud rhaglen am y lein fach o Borthmadog i Flaenau Ffestiniog. Cyfeiriodd y darlledwr enwog at fwthyn bach unig wrth ochr y lein a'i alw'n 'traitor's cottage', gan esbonio fod Lord Haw Haw wedi bod yn byw yno am gyfnod. Wrth ddarlledu o ddinas Berlin wedi i'r rhyfel ddod i ben, canfu Wynford Vaughan Thomas y stiwdio y bu Haw Haw yn darlledu ohoni, a



Y bomio

Awyrennau bomio'r Luftwaffe yn yr Ail Ryfel Byd. Yn ôl Amgueddfa Forwrol Lerpwl roedd yr Almaenwyr wedi ymosod ar Lannau Merswy 80 o weithiau rhwng 1940 a 1942 a'r gwaethaf oll oedd y cyrch a ddigwyddodd ym Mis Mai 1941 pan barhaodd y 'blitz' am 7 noson yn olynol.

manteisiodd ar y cyfle i ddarlledu'n fyw o'r union le hwnnw'r noswaith honno.

Mae ambell un yn tynnu fy nghoes trwy ddweud fy mod i wedi cyrraedd gyda'r 'blitz', ond prin y cefais fy mygwth yn uniongyrchol gan fomiau'r Luftwaffe gan eu bod yn bwrw'u gwae ar y trefi mawrion. Canolfannau diwydiannol a dociau Lerpwl a Glannau Merswy oedd rhai o'u prif dargedau ac roedd y ffordd o gael hyd i'r rhain o'r awyr yn nhywyllwch y nos, yn golygu bod gogledd Cymru o dan eu llwybr. Roedd awyrennau'r Almaen yn gallu dilyn yr arfordir ac oherwydd nad oedd Iwerddon yn rhan o'r rhyfel roedd goleuadau adeiladau a strydoedd i'w gweld dros y wlad drwy'r nos, tra 'roedd Prydain yn gorfod cynnal 'blackout'. Hawdd oedd i'r Luftwaffe ddod o hyd i lwybr dros arfordir Iwerddon ac yna troi i'r dde dros Ddilyn a heibio gogledd Cymru hyd at eu targedau ar Lannau Merswy. Bu sôn bod ambell genedlaetholwr Cymreig yn tanio coelcerthi ar bennau rhai o'r bryniau i ddangos y ffordd i Loegr i'r Almaenwyr a hynny oherwydd eu cred bod *'gelyn fy ngelyn yn ffrind i mi.'*

Os digwyddai i awyrennau Prydain, fel y 'Spitfire' a'r 'Hurricane', fod yn drech nag awyrennau bomio'r Natsiaid, roedd peilotiaid y gelyn yn cefnu ar Lerpwl ac yn hedfan tuag adref ar hyd yr un llwybr ag y daethant. Er mwyn gwneud eu hawyrennau'n gyflymach, roedd raid iddynt gael gwared â'u bomiau ac felly, yn aml iawn, fe ollyngid y llwyth bomiau ar dir Cymru*. Fel pawb arall ym Mhrydain, roedd yn rhaid i bobl Bethesda wneud yn siŵr nad oeddent yn dangos unrhyw olau yn ystod yr hwyr ac, yn wir, ac er mawr gywilydd, cafodd fy mam ei dal gan blisman Rachub am ddangos golau. Plisman 'drama' oedd hwnnw yn ôl fy nhad, ond anfonwyd fy mam i'r llys am ddangos golau'n ddamweiniol. Dw i'n cofio'r sôn am rai o'r bomiau'n cael eu gollwng ar frys ac yn syrthio yn Rachub ac ym Maesgeirchen, Bangor, ac fe laddwyd pobl gan y ffrwydradau hynny. Y sôn oedd bod y bomiau ar Faesgeirchen mor fawr fel bod effaith y sioc o'r ffrwydro wedi achosi i bob yn ail ffenest yn siopau Bangor gael eu torri. Oherwydd yr ymosodiadau hyn, byddai seiren yn canu i'n rhybuddio bod awyrennau Hitler ar eu ffordd. Pan glywai Richard Jones drws nesa' y rhybudd, byddai'n dod i guddio yn y sbens yn y seler oedd yn

ein tŷ ni gyda phowlen dun golchi llestri ar ei ben a'i lyfr insiwrans yn ei law. Er gwaethaf ofnau Richard Jones, yr unig fomiau dw i'n eu cofio'n syrthio'n agos atom ni oedd y bomiau a ddisgynnodd mewn cae ger Pont-y-Tŵr. Wedi'r oedfa nos Sul, ein harfer fel teulu oedd mynd am dro ar hyd y lôn bost heibio Pont-y-Tŵr at Ogwen Banc ac yna dros ben Braichmelyn ac i lawr at lwybr Nant y Graen ac adref i swper. Ar y ffordd, byddwn yn gofyn i 'nhad ddweud hanes y bomio a dangos ôl y ddau dwll a adawodd y bomiau ar lan afon Ogwen.



Masgiau Nwy

Masgiau nwy o'r math oedd yn gyffredin ymhob tŷ drwy'r wlad yn ystod y rhyfel ac ar ôl hynny.

Ond fe gafodd y 'blitz' ei effaith ar fy mywyd. Roedd ofn arnaf y byddai'r Natsiaid yn gwneud yr hyn a ddigwyddodd yn y Rhyfel Mawr, sef defnyddio nwy i ladd. Wedi'r cyfan roedd yr Ail Ryfel Byd wedi datblygu o fod yn rhyfel rhwng milwyr ar faes y gad, i gynnwys ymosodiadau ar bobl gyffredin gan gynnwys gwagedd a phlant. Roedd yr ofn y byddai'r awyrennau'n gollwng bomiau nwy ar Brydain yn un real a dychrynlyd. Oherwydd hyn, fe ddosbarthwyd masgiau nwy i bawb ym Mhrydain. Roedd rhai arbennig i fabanod a phlant ac mae'n debyg mai un o'r rheini a gefais i ar y cychwyn. Cefais lawer o hwyl yn chware milwyr a dynion o'r gofod wrth ddefnyddio'r masgiau i oedolion a ddaeth i'n tŷ ni. Roedd sôn hefyd am y faciws a ddaeth yma o lefydd fel Lerpwl a oedd yn diodde'n drwm o'r 'blitz'. Plant o'r dre oedd y rhain oedd wedi rhyfeddu gweld tatws yn tyfu mewn caeau, oherwydd roedden nhw'n tyfu'n wyllt yn eu barn nhw; a pheth arall a greodd gryn ddifyrrwch ymhlith pobl Bethesda oedd eu syndod o weld bod llaeth yn dod allan o bwrs buwch.

• Bu golygydd yr atgofion hyn yn sgwrsio â Mr Wynne Roberts, o Dregarth erbyn hyn, ond brodor o Rachub, a adnabyddir gan bawb fel Wynne, Tan y bwlch. Aeth â ni o gwmpas yr ardal gan ddangos lle disgynnodd rhai o'r bomiau. Mae Wynne bellach yn agosáu at 90 oed ac yn un o'r ychydig o bobl Rachub sy'n cofio'r bomiau'n disgyn ar y pentref. Dywedodd o bod naw bom wedi eu gollwng ar yr ardal a phedair ar dir Bryn Owen a Bryn Eithin ac fe restrodd y rhai a ddisgynnodd yn Rachub fel a ganlyn:

1. **Cae Picin**, Tyddyn Uchaf.
 2. **Cae Ty'n Ffridd**, eiddo Owen Morgan, yn union o flaen Capel Bethel, pryd y maluriwyd un paen o wydr yn y ffenestr gron yn uchel ar fur talcen y capel. Yn y llun isod gwelir Wynne yn sefyll o flaen y cae a thai Bron Bethel lle disgynnodd y bom honno.
 3. Congl **Becws Griffith John Roberts**
 4. **Llwyn Derw**, tu ôl i Lôn Groes pryd y lladdwyd Mrs Davies ac yr anafwyd rhai o'r plant.
 5. **Cae Pant Hwfa**
 6. Tomen chwarel **Tan y Bwlch**
 7. **Ffridd Pant Hwfa** yn ymyl cae Corbri, - claddwyd merlyn yn y twll a adawyd gan y bom y flwyddyn ganlynol.
 8. Canol **Ffridd Corbri**
 9. **Waen Bryn**, tu allan i giât Fadog.
- Diolch i Wynne Roberts am ei gymorth yn nodi'r union leoedd y digwyddodd y bomio y sonnir amdano yn erthygl Wyn Thomas, Abertawe.



Wynne Roberts yn sefyll o flaen cae Ty'n Ffridd lle saif tai Bron Bethel heddiw.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Rai blynyddoedd yn ôl, mi gef'is i hyd i hen rifyn o bapur-newydd y *Daily Mirror* (rhifyn dydd Iau, Medi 3, 1936). Tarodd fy llygaidd ar “The Most Beautiful Will Ever Written”, erthygl a oedd yn rhyfeddol o ddiddorol, yn gymaint felly nes i mi fynd ati i'w throsi i'r Gymraeg. Fe'i cyflwynwyd fel hyn:

Mae pob dyn a dynes yn America yn gwybod yr ewyllys hon ar dafod leferydd. Dylid ei darllen bob bore ym mhob ysgol yng ngwledydd Prydain. Mae'n wers ar sut i fyw. Cafwyd hyd iddi ym mhoced siwt garpiog mewn wyrchw. Doedd y wardeiniaid ddim yn gallu dirnad prydferthwch gogoneddus y gwaith, gan mai prin yw awen bardd mewn wyrchw. Anfonwyd yr ewyllys at gyfreithiwr; gwnaeth gymaint o argraff arno nes iddo ei darllen o flaen y Bar yn Chicago ...

Ac mi hoffwn i rannu fy rhydd-gyfieithiad o anerchiad y cyfreithiwr hwnnw efo chi, ddarllenwyr *Llais Ogwan*.

* * *

Doedd ganddo'r un geiniog goch i'w enw. Bu farw mewn tloty. Ond cyn iddo farw, fe wnaeth:

Yr Ewyllys Fwyaf Gogoneddus a ysgrifennwyd erioed

Rydw i, Charles Lounsberry, o gadarn feddwl, synnwyr a chof, yn gwneud a chyhoeddi hon, f'ewyllys olaf, er mwyn rhannu i eraill y cyfan oll a feddaf yn y byd.

Nid ymdrafferthaf i rannu'r hyn a eilw'r gyfraith yn eiddo i mi, gan mor ddi-nod a chwbl ddibwys ydyw.

Yr hawl i fyw ni feddaf, dim ond tra bwyf ar y ddaear ond, ar wahân i hynny, popeth arall o werth yn y byd fe rannaf ac a ewyllysiaf fel a ganlyn:

* * *

I bob tyner dad ac addfwyn fam, fe roddaf, er mwyn eu diogelu i'w plant, yr holl eiriau bach tlws o glod ac anogaeth, a'r holl enwau hoff ac anwyldebau, a phwysaf ar y rhieni i'w defnyddio'n deg a chyfiawn, ond eto'n hael a rhydd, yn ôl haeddiant gweithredoedd eu plant.

I blant, pa le bynnag y bônt, drwy gydol cyfnod eu maboed, gadawaf holl flodau'r maes a ffrwyth y coed, a'r hawl iddynt chwarae'n rhydd yn eu plith, yn ôl arfer plant, gan eu rhybuddio'r un pryd rhag drain a mieri.

I blant hefyd y bo glan pob afonig ac aur draethau'r dyfroedd, ac arogleuon pêr yr helygen bendrist, a'r cymylau gwynion ar eu taith uwch y coedydd tal.

Ac i blant y cyflwynaf yr hirion, hirion ddyddiau braf i ymddifyrru a chydlawenhau, a'r nosau meithion, swrth i ryfeddu at wyrth holl sêr y Llwybr Llaethog uwchben, cyhyd ag y bo'r hawl gan gariadon, hefyd, i'w mwynhau yr un pryd.

I fechgyn a merched, bob yr un, drwy gyfnod eu plentyndod, cyflwynaf y meysydd eang a'r caeau gwastad lle bydd chwarae pêl yn bleser digymysg; y dyfroedd gloywon lle cânt nofio'n braf, y bryniau eira i lithro a sglefrio, a phob nant a phwll sydd nef i bysgotwyr. A phob dŵl feillionog â'i mil löynnod; pob coedwig ddeiliog, hardd; gwiwerod ac adar; pob sŵn ac atsain, a'r holl fannau pell a dieithr sydd mor gyforiog o antur.

Ac i bob bachgen a merch fel ei gilydd, dymunaf iddynt eu cilfach glyd eu hunain fin nos ar eu haelwyd, i ymfwynhau, gyda phob darlun byw a grëir gan fysedd fflamau'r tân, heb na gofal na gofid, na rhwystr na phoen.

* * *

I gariadon, rhof iddynt eu byd o ddychymyg a rhamant, a'r oll a ddymunant – sêr y nos a rhos yr ardd, mantell dlos y ddraenen wen, a phêr nodau cain cerddoriaeth, a pha beth bynnag arall a ddeisyfant yn arwydd o barhad a gwychedd eu cariad pur at ei gilydd.

I wŷr ieuainc, un ac oll, cyflwynaf holl dymestl ac ysbrydoliaeth antur, chwarae a chystadlu, a rhof iddynt hyder diysgog yn eu cryfder eu hunain ynghyd â chas a dirmyg at bob arwydd o wendid.

Iddynt hwy, gadawaf y gallu i wneud cyfeillion parhaol a chael cwmni cytûn; ac iddynt hwy, yn anad neb, y rhoddaf yr holl donau llon a'r caneuon hwyliog i'w datgan â'u nerthol leisiau.

* * *

Ac i'r rhai nad plant, nac ieuanc, na chariadon, mohonynt bellach, gadawaf gof – cof am a fu, i ail-fyw'n llawn a rhydd, heb na pherygl na phoen, y dyddiau dedwydd a difyr gynt yng nghwmni bardd a llenor, gair ac atgof.

I'r annwyl rai, â'u gwallt yn wyn, cyflwynaf hapusrwydd henoed, a chariad a gwerthfawrogiad eu plant nes eu goddiweddyd gan eu holaf hun.

Y Dyddiadur toriadau (2)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933 oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

Pennod 2

Yn y bennod gyntaf soniwyd am dair drama yn cael eu perfformio gan gwmnïau drama Niwbwrch, Llannerchymedd a Phwllgwyngyll. Cwmni Niwbwrch oedd yn cyflwyno 'Unigrwydd' (Brighthouse), cwmni Llannerchymedd yn cyflwyno 'Canwyllbrennau'r Esgob' (Victor Hugo) a chwmni Pwllgwyngyll yn cyflwyno 'Tri Chryfion Byd' (Twm o'r Nant).

Sonnir am yr actorion yng nghyflwyniadau Llannerchymedd a Niwbwrch ond ni enwir y perfformwyr yn nrama Pwllgwyngyll. Yn 'Canwyllbrennau'r Esgob' [Llannerchymedd] ymddangosodd yr actorion canlynol - Yr Esgob - Mr John William Jones; Y Troseddwr - Mr R Evans Hughes; Persome - Miss Catherine Jones; Marie - Miss Amy Edwards a Siarsiant y Gendarmes (ond ni enwir y sawl oedd yn chwarae rhan hwnnw).

Yn 'Unigrwydd', sef cyflwyniad Cwmni Niwbwrch, ymddangosodd y canlynol, - Sara Ormerod; Miss L Lewis; Emma Brierley; Miss A J Evans; y Parch Frank Alleyne; Mr H Lewis; Sam Horrocks a Mr W H Roberts.

Dywedir yn yr adroddiad bod tri pherfformiad o'r dramâu i gael eu perfformio a bod Cynan, yr athro, yn teilyngu cefnogaeth am hyrwyddo mudiad y ddrama ym Môn. Pwysleisir y gobaith mai cynhyrchu dramâu o awduraeth gwŷr mawr Môn y byddis [sic] rai o'r blynyddoedd nesaf.

Wrth adrodd hanes perfformiad y tair drama sonia'r gohebydd yn benodol am anterliwt 'Tri Chryfion Byd' a dyma ddyfyniad o'r adroddiad;

'adgofir ni o rym ac asbri yr hen bregethwyr dramwyai Cymru yn y cyfnod hwnnw, "emotional harangues" a gynhyrfai'r werin i orfoleddu a throï o gyfeiliorni eu ffyrdd. Rhoddai yr awdurdodau eglwysig fwy o bwys ar y gwasanaeth a'r offeryn [sic]. Dilyn patrwm yr hen

saint weddnewidiodd Gymru gyfan a nerth eu pregethau grymus, a llai o bwys ar "ritual" Rhydd dilyn y perfformiad hwn syniad clir am arddull y rhai ddeffrodd ein cenedl o'u cwsgr yn y ddeunawfed ganrif. Ofnid Twm fel "gwŷr a chleddyf" ond yr oedd raid wrth y math hwn o draethu bryd hynny. Ebai Twm unwaith wrth Thomas Charles o'r Bala, "Edrychwch chi ar ôl y defaid, mi edrychaf finnau ar ôl y bleiddiaid." Credai ef mewn bod yn "arw" ac mae'n un garw drwy'r interliwt hon.'

Ynghanol yr adroddiad am y dramâu ceir cerdd (emyn?) wedi ei gludio nad yw'n dal unrhyw berthynas â'r dramâu hyd y gellir gweld. Dyma'r gerdd honno yn ei chyfanrwydd. Tybed oes rhywun yn gyfarwydd â'r geiriau hyn heddiw? Nid oes enw wrth y gerdd neu'r emyn.

MOLAWD NATUR

Clywais lais aderyn rhwng yr irddail mân,
Gwn mai salm o foliant oedd ei ryfedd gân.
Trwy y goedwig dywell, traidd fel trwmped nef,
Deffry dyner dannau gan ei angerdd ef.
Hoffwn innau hefyd uno yn y côr,
Sydd yn arllwys odlau pêr i'r Arglwydd Iôr.

Gwelais gyda'r wawrddydd flodyn unig, hardd
Draw yn perarogli 'nghyrrau cudd yr ardd,
Plyg ei ben yn wylaidd i groesawu'r wawr, yn ei lifrai rhuddaur
molai Grëwr Mawr.
Hoffwn innau hefyd uno yn y côr
Sydd yn arllwys odlau pêr i'r Arglwydd Iôr.

Derfydd cainc yr adar, oerwynt gaeaf ddaw
Gwywa gwrid y blodau persawr yn y glaw,
Sêr, heb dor, a'i molant ar eu cylchdro maith,
Natur ymhyfryda, una yn y gwaith
Hoffwn innau hefyd uno yn y côr
Sydd yn arllwys odlau pêr i'r Arglwydd Iôr.

Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Ar ddydd Llun Gwyl y Banc, Mai 28ain, bu nifer o aelodau Plaid Cymru o'r dyffryn yng Nghaernarfon yn cofio am ddigwyddiad hir a chaled sydd bellach yn ran o hanes Caernarfon, sef Streic Ferodo (Friction Dynamics). Digwyddodd y streic hon rhwng 2001 a 2003. Fe gofiwch, mae'n debyg fynd heibio'r ffatri gyda'r giatiau wedi cau, y gweithwyr yno yn picedu, a phobl yn canu corn y car er mwyn dangos eu cefnogaeth. Cael eu cloi allan oedd eu hanes, a gwyddom o brofiad hanes ym Methesda beth ydy hwnnw. Mae'n

anodd credu bod y streic hon wedi digwydd gan mlynedd yn ddiweddarach. Dyma ddywedodd Hywel Williams

A.S:-

"Wyddoch chi, mi gofiai i byth gerdded efo'r gweithwyr yn ôl i'r gwaith wedi'r streic

fer gynta yn 2001. Cerdded fel criw o'r maes parcio a'r cyflogwr yn ein cyfarfod ni ar y bont. A rhwystro'r gweithwyr rhag mynd yn ôl at eu gwaith. Mi gofiai byth y wên hyll ar ei wyneb o. Roedd o'n gwybod yn iawn be oedd o'n ei wneud. Cloi allan oedd o!"

Hanes yn ailadrodd ei hun ddeg milltir i ffwrdd.

Dyma lun o'r plac a ddadorchuddiwyd. 'Roedd Cangen Plaid Cymru Caernarfon yn flaenllaw iawn gyda'r apêl i godi arian at gostau'r digwyddiad arbennig hwn.



Ysgol Tregarth

Ffarwelio
Bydd Miss Jessica Salisbury, myfyrwraig o'r Brifysgol, yn ein gadael ddiwedd y mis ar ôl dysgu disgyblion blwyddyn 1 a 2 am gyfnod o 9 wythnos. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Miss Jessica Salisbury am ei gwaith dros yr wythnosau diwethaf. Bydd yr ysgol a'r disgyblion yn gweld ei cholli.

Diwrnod Lliwgar
Mae'r cyngor eco wedi bod yn brysur ac yn weithgar iawn yn ystod y tymor. Yn ystod yr hanner tymor diwethaf penderfynodd y cyngor bod angen datblygu gardd yr ysgol a'r ardal tu allan. Y cam cyntaf oedd tacluso'r ardd - diolch yn fawr i ddosbarth Ogwen am wneud hyn yn ystod eu hamser aur. Gwahoddodd y cyngor ddisgyblion yr ysgol i ddod â phlanhigion, pethau sy'n troelli yn y gwynt, potiau a llawer mwy er mwyn sicrhau fod yr ardd a'r ardal tu allan yn lliwgar ac yn ddeniadol. Fe ddaeth llawer o ddisgyblion â nifer o blanhigion a photiau er mwyn plannu - rydym yn ffodus iawn o gael rhieni cefnogol, diolch yn fawr iawn i chi.

Cwm Idwal
Ar Ddydd Gwener, Mai 18fed cafodd disgyblion Dosbarth Ffrydlas y profiad o gerdded Cwm Idwal. Drwy lwc roedd y tywydd yn fendigedig o braf a chawsom weld y lle hynod hwn ar ei orau. Cerddasom ar y llwybr o amgylch y llyn, gan ddysgu ychydig o hanes, daeareg ac wrth gwrs yr enwau difyr megis Cwm Cneifon, Cwm Clyd a'r Twll Du i enwi ond ychydig. Cafwyd hwyl

arbennig wrth i ni oedi ar lan y llyn, cyn dychwelyd i'r man cychwyn. Diolch o galon i Cemlyn a Dewi ein harweinwyr gwybodus ac amyneddgar. Diwrnod bendigedig yn dysgu gwerthfawrogi ein hardal leol.

Taith Gerdded yr Wyddfa
Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn hynod o ffodus i gael cerdded i gopa'r Wyddfa ddiwedd Mis Mai gyda chwmni Anelu yn arwain y ffordd.
Dilynodd Bl 6 lwybyr PYG o Ben y Pas - roedd yn waith hynod o galed ac yn serth iawn ar adegau ond dal ati wnaeth pawb heb air o gwyno. Cyrhaeddwyd y copa mewn tair awr a hanner ac yno cafodd pawb gyfle i gael egwyl a bwyta eu cinio. Roedd hi'n ddiwrnod clir a dim yn rhy brysur ar y copa felly cafwyd cyfle i edrych a syllu ar y golygfeydd anhygoel, cyn cychwyn i lawr am adref.
Wythnos yn ddiweddarach, cyfle blwyddyn 5 oedd hi i gerdded yr Wyddfa, yn dilyn llwybr o Lanberis y tro hyn. Roedd y daith yn hir, ond eto, cafwyd tywydd bendigedig a oedd yn help mawr i godi'r ysbryd a chynnal y plant i fyny'r mynydd. Roedd Allt Goch ac Allt Moses yn ychydig o her i'r criw ond dal ati wnaethant nes cyrraedd y copa gydag ochenaid fawr o ryddhad. Gan fod sawl un erioed wedi cerdded Mynydd uchaf Cymru o'r blaen, roeddynt wedi gwirioni ac yn ymfalchïo yn fawr iawn yn eu llwyddiant!
Da iawn chi blant Blwyddyn 5 a 6!



MYNEDIAD
£1.50 i Oedolion (paned a bisged)
£2 i blant (gyda castell neidio)

FFAIR HAF

Dydd Sadwrn Gorffennaf 21^{ain} ~ 11-3yh
Canolfan cymunedol Tregarth

CREFFT

BWYD A DIOD

Peintio
Gwynebaw

RAFFL

Castell neidio STONDINAU

Cystadleuaeth gwisg ffansi plant
Cychwyn am 11.30yb
A llawer mwy

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Trefn Oedfaon:
Mehefin 17: Parchg. John Gwilym Jones.
Mehefin 24: Oedfa.
Gorffennaf 1: Mr. Dafydd Iwan.
Gorffennaf 8: Haf yn trefnu.
Gorffennaf 15: Parchg. Huw Dylan.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cyngorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cyngorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cyngorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cyngorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CyngorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen,
Rhiwlas ☎ 01248 355336

Diffib Rhiwlas
Dros yr wythnosau diwethaf mae pwyllgor Diffib Rhiwlas wedi bod yn brysur iawn. Braf yw adrodd bod ciosg BT Bro Rhiwen wedi cael ei ddiogelu ar gyfer y diffib. Diolch yn fawr iawn i Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, a Chyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu gwaith i sicrhau dyfodol y ciosg ar gyfer y diffib. Mae cyfansoddiad ffurfiol grŵp Diffib Rhiwlas bellach yn ei le, ac mae cyfrif banc wedi ei agor yn enw'r grŵp. Golyga hyn bod y gwaith o ddechrau casglu arian yn gallu dechrau. Mae llawer o syniadau wedi bod yn cael eu trafod gan gynnwys te prynhawn yn Ysgol Rhiwlas; taith gerdded o amgylch Rhiwlas a Moelyci gyda thywysydd yn adrodd hanes yr ardal; a helpa drysor ceir. Y dyddiad cyntaf i'ch

dyddiaduron yw **nos Iau, 21ain Mehefin 2018, am 7yh** yn Neuadd Ysgol Rhiwlas. Ar y noson bydd cynrychiolydd o Wasanaeth Ambiwylans Cymru yn cynnal sgwrs am offer diffib, a phwysigrwydd peiriant diffib. Yn ogystal bydd cyfle i unigolion fynegi diddordeb mewn derbyn hyfforddiant sut i ddefnyddio peiriant diffib (unwaith bydd Diffib Rhiwlas wedi llwyddo i godi digon o arian i brynu'r peiriant). Bydd hefyd cyfle i ddechrau trafod syniadau casglu arian. Croeso cynnes i bawb!

Ar **nos Fawrth 10fed Gorffennaf am 7yh** bydd 'Ras Hwyl' Pentir yn cael ei chynnal. Braf yw cyhoeddi y bydd rhan o elw'r ras yn cael ei rannu gydag ymgyrch Diffib Rhiwlas. Diolch yn fawr iawn i griw Parchu Pentir am eu haelioni. Mae'r ras yn cychwyn o Dafarn y Vaynol, ac yn bellter o 4.5km. Braf fyddai gweld trigolion Rhiwlas yn cymryd rhan i gefnogi'r ymgyrch. Mae digon o amser i ddechrau ymarfer!

BWRLWM HAF

DIWRNOD MAWR O GYSTADLU A HWYL!
2-6pm
Gorffennaf 7fed
Caeau Ysgol Dyffryn Ogwen

Dewch i gefnogi tîm eich ardal chi!

Ogwen Isaf

Tregarth, Mynydd Llandygai a Rhiwlas

Ogwen Uchaf

Rachub, Llanllechid a Thalybont

Gerlan a Braichmelyn

**CYSTADLAETHAU I'R PLANT
LLUNIAETH AR GAEL
CYFLE I OSOD STONDIN
(ffoniwch 07789 742092)**

Grŵp Cynefin
Mwy na thŷ - More than housing

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Cydymdeimlo
Bu farw Margaret Louisa Jones, Tŷ Coetmor, Brynbella, ar Fai 16, a chydymdeimlwn gyda’r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Mae ei mab Meurig a’i deulu yn byw yn Hen Dyrpeg, Tregarth ac anfonwn ein cofion atynt yn eu galar.

Capel Shiloh, Tregarth
Pob oedfa am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol
Mehefin 17 Glyn Owen, Llanwnda
Mehefin 24 Trefniant Lleol
Gorffennaf 1 Richard Gillion
Gorffennaf 8 Richard O. Jones, Gaerwen
Gorffennaf 15 Ellie Jones, Coed y Parc
Gorffennaf 22 Gwynfor Williams, Caernarfon

Genedigaeth
Ymddiheuriadau mawr nad ydym wedi cyhoeddi fod teulu o Shiloh wedi dod yn Nain a Thaid a hynny ers Mis Rhagfyr 2017. Ganed wyres i Hazel a Michael Hughes, Craig y Pandy, sef Nel Dafydd. Mae Nel yn ferch fach i Dafydd ac Emma Hughes a dymunwn y gorau iddynt fel teulu.

Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol
Bu oedfa deulu Cymorth Cristnogol yn Shiloh, Nos Sul, Mai 13, ar gychwyn yr wythnos arbennig. Cafwyd eitemau pwrpasol gan yr ieuenctid a rhai o’u rhieni a sgwrs gan y Parchedig Gwynfor Williams. Diolch o galon i bawb am eu cyfraniad. Gwnaed casgliad tuag at Gymorth Cristnogol ac anfonwyd £60 ar gyfer y Gronfa Leol.

Merched y Wawr Cangen Tregarth
Nos Lun, Mai 7, cafwyd cwmni Arwyn Oliver a Now Jones o Fethesda yn y gangen leol o Ferched y Wawr. Treuliwyd noson arbennig o ddifyr ac addysgiadol yn trafod a dangos lluniau o’r lein fach a’r lein fawr oedd yn mynd o Borth Penrhyn ym Mangor i fyny i Fethesda. Cawsom hanes stesion Felin Hen a stesion Tregarth a llawer o’r aelodau gyda atgofion o weld y tren yn tramwyo drwy’r ardal. Cafwyd hanes cychwyn y lein a chyfeiriad at y gwahanol Injans oedd yn tynnu’r cerbydau o’r chwarel i lawr i Fangor ac yn ôl i Fethesda. Dyma gyfnod hynod o brysur yn y porthladd gyda miloedd o lechi yn cael eu hallforio i wahanol rannau o’r byd. Trist iawn yw meddwl fod y lein fawr a’r lein fach wedi diflannu bellach ond onid braf yw gweld

fod rhannau o lwybr y lein ar agor i ni drigolion yr ardal gael cerdded ar eu hŷd. ‘Newid ddaeth o rôd i rôd’. Diolchwyd i Arwyn a Now am noson werth chweil gan Allison. Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Fehefin 4 a hynny yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor pan gawn gyfle i weld yr arddangosfa ‘Penrhyn’ a chael cyfle i gael ein tywys o gwmpas rhai rhannau o’r Brifysgol gan Sian Robinson, cyn mwynhau pryd o fwyd yn y Teras.
Byddwn yn rhoi terfyn am y tymor Nos Lun, Gorffennaf 2, a hynny yng Ngardd Anwen yn Cysgod y Parc, Sling. Croeso cynnes i bawb o’r aelodau a phawb i gofio dod â chadair i’w canlyn !!

Llwyddiant yn yr Urdd
Llongyfarchiadau enfawr i Buddug Watcyn Roberts o Ben y Ffriddoedd ar ennill y wobr gyntaf am ysgrifennu barddoniaeth dan 25 oed yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Y llynedd daeth i’r brig am ysgrifennu rhyddiaith. Mae hyn yn dipyn o batrwm felly tydi?! Go dda wir, a gobeithiwn allu cyhoeddi’r gwaith yn un o rifynnau nesaf y Llais.

Diolch
Ar yr ail o Fai, dathlodd Judith Green o Landudno, sydd yn gyfnither i Valerie Hayward, Bro Derfel, ei phen-blwydd yn 65 oed, ym Mhant yr Ardd. Hoffai Val ddiolch i Bob a Louise am y wledd, ac i ffrindiau a theulu am noson llawn hwyl.
Dymuna Maldwyn a Gwyneth Morris a’r teulu ddiolch i Gareth Williams, Trefnydd Angladdau, a’r Parchedig Huw John Hughes, am eu gwasanaeth yn angladd Vernon Thomas, 5, Ffrwd Galed, a roddwyd i orffwys ym mynwent Eglwys Coetmor ar y 25ain o Ebrill. Diolch hefyd i staff Plas Ogwen a Bryn Seiont Newydd, Caernarfon, am eu gofal o Vernon.

Llongyfarchiadau
Ganwyd merch, sef Efa Wyn, ar Ebrill 17eg, i Dylan a Sioned, 8, Maes Ogwen, - chwaer fach i Manon. Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, sef Tecwyn a Sarah Griffiths, 28, Ffordd Tanrhiw.

Clwb Cant Canolfan Tregarth
Mis Mai:
37 Angharad Williams - £15
30 Muriel Williams - £10
15 Buckley Wyn Jones - £5

GARDD AGORED

Llys y Gwynt Llandygai

Gorffennaf 1af

11 - 4 o’r gloch

Yr elw i’r Cynllun Gerddi Cenedlaethol

Nyth Y Gân

Ddoe a Heddiw
Fe sgwrsiai’r ddau o flaen y tân
Am bethau y gorffennol,
A gwên a ddôi bob hyn a hyn
Wrth enwi rhai dymunol.

Doedd amryw beth heb newid dim -
Yr afon fach na’r mynydd
Nac adeiladau hen ychwaith
Oedd yn cyd-fynd â’r ffermydd.

Diwylliant oedd yng nghartref rhain
A braf y llifai’r geiriau
Wrth sôn am eu plentyndod iach
A gwerth yr eisteddfodau.

Cymdeithas oedd fel cadarn graig
A’r heniaith oedd yn ffynnu,
A pharch at draddodiadau gwych
A’r doniau gwerthfawr hynny.

Mae’r aelwyd heddiw’n wag o blant
O’u hardal ymadawsant,
A’r estron uniaith ddaeth i’r fro -
Rhaid gwarchod ein diwylliant.

Adfeilion Tyddyn
Yn y cae dan rhyw goed cyll yn dila
Mae o’n dal i sefyll;
Yno’n hen ac eto’n hyll
Mae’n geidwad mwyn i gudyll.

Y Chwarel
Mor hoff yw o’n hatgoffa o lafur
A lifai drwy’r poncia’;
Hon gynigiodd geinioga’
Yn y dwfn i’r cynion da.
Dafydd Morris

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlo
Anfon ein cofion cywiraf at Mr a Mrs John Glyn Jones, Tanygadlas Isaf, Mr a Mrs Thomas Jones, a’r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain werthfawr ac annwyl iawn iddynt, sef Mrs Margaret Jones, Tŷ Coetmor - hithau wedi’i magu yn Nhanygadlas cyn priodi.

Newyddion i’r Llais
Oes na fwy o newyddion ym Mraichmelyn tybed, sydd ddim wedi cyrraedd y casglwyr na’r golygyddion? Cofiwch, mae croeso i chi anfon eich newyddion atom - byddem yn falch o’i dderbyn.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Brysiwch Wella

Dymuniadau gorau i Liz Pritchard, a dreuliodd noson neu ddwy yn Ysbyty Gwynedd yr wythnos ddiwethaf. Brawychwyd ei chymdogion a'i ffrindiau i gyd wrth weld ambiwlans o flaen Glan Bethlehem. Mae Eleri, Deion a Cadi yn hynod o falch bod Nain wedi cael dod adref, a'i bod yn teimlo'n well o lawer erbyn hyn.

Mae hi'n braf gweld Sheila Owen, Millbank, yn gwella'n raddol ar ôl ei hanffawd, a Bethan Griffiths, Ardudwy, yn cryfhau ac yn mwynhau'r tywydd braf.

Storm –Dim Llifogydd

Cysur mawr i drigolion Dolhelyg a Chae Gwigin oedd profi llwyddiant y trefniadau atal llifogydd yn ystod y storm erchyll o felst a thranau a gawsom ar nos Sul, Mai 27ain. Roedd y glaw yn llifo i lawr Dolhelyg fel afon, gan greu pyllau mawr y tu allan i'r tai ac o flaen y Capel. Ond, wrth i'r glaw arafu, fe giliodd y dŵr, a chawsom noson weddol dawel o gwsig. Diolch byth !

Penodiad

Llongyfarchiadau i Llinos Angharad Davies, un o genod Talybont, sydd bellach yn byw yn Nhregarth, ar ei phenodi'n bennaeth yn Ysgol Esceifog, Gaerwen. Mae Llinos wedi bod yn gofalu am yr ysgol ers blwyddyn tra roedd yn cwblhau'r cymhwyster ar gyfer prifathrawiaeth. Yn ddiweddar, derbyniodd ei thystysgrif mewn seremoni yng Nghastell Hensol, Morgannwg. Mae Llinos yn dilyn ôl traed ei rhieni, Wil a Meriel Parry, Bryn Eithinog, ac yn wyres i Llew ac Enfys Jones, Cae Gwigin.

Eglwys St. Cross

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Glenys Jump, Corbri, a'r holl deulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli priod, mam, nain a hen nain - Mrs Margaret Louisa Jones, Tŷ Coetmor, Bryn Bella.

Garddwest y Tair Eglwys

Croesawn bawb i'r Arddwest am 1 o'r gloch bnawn Sadwrn, Gorffennaf 14eg, yng ngardd y Ficerdy, Pentir.

Capel Bethlehem

Oedfaon
Mehefin 17: Parchg. Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus; Mehefin 24: Gweinidog; Gorff. 1: Parchg. W. H. Pritchard, Trearddur:

Gorff. 8: Oedfa Deuluol yng nghwmni plant yr Ysgol Sul; Gorff. 15: Gweinidog; Gorff. 22: Parchg. Geraint Roberts, Porthaethwy; Gorff. 29: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.
Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul

Braf oedd gweld pob aelod o'r Ysgol Sul yn bresennol yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel Emaus, Bangor, ar fore Sul, 20 Mai. Llongyfarchiadau iddynt i gyd, sef Rhodri, Gwenno, Abi, Deion, Mia, Harri, Poppy a Caleb. Cawsant i gyd eu gwobrwyo am eu ffyddlondeb a'u gwaith yn yr Ysgol Sul.

Edrychwn ymlaen at eu cwmni mewn Oedfa Deuluol a gynhelir ym Methlehem brynhawn Sul, 7 Gorffennaf.

Gwella

Croeso adref i Mrs. Iola Williams wedi iddi dderbyn llawdriniaeth a threulio rhai wythnosau yn ysbytai Gwynedd ac Eryri. Daliwch i wella Iola!

Te Mefus

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n Te Mefus blynnyddol a gynhelir yn y festri ar nos Fercher, 4 Gorffennaf am 7.00yh.



Canu Mawl

Am y tro cyntaf erioed, cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda yng Nghapel Emaus, Bangor ar fore Sul, Mai 20. Daeth tair eglwys ynghyd: Bethlehem, Talybont; Carmel,

Llanllechid ac Emaus, Bangor. Arweinydd y gân oedd Valerie Ellis a'r organydd oedd Nia Llwyd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan rai o ieuencid Emaus – Aaron, Eluned, Gruffudd, Guto a Morgan – a llywiwyd y cyfan yn gelfydd gan Gethin a Ioan o eglwys Emaus. Rhoddwyd seibiant i'r gynulleidfa pan ganwyd deuawd hyfryd gan Elen Wyn a Beca Nia, Carmel, Llanllechid, gydag Owain

Morgan yn cyfeilio, heb anghofio deuawd Cian a Morgan, Emaus
Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd tystysgrifau a gwobrau i 79 o blant am eu gwaith yn yr ysgol Sul ac am eu ffyddlondeb. Roeddent yn amrywio o blant os oed meithrin i ddisgyblion oed ysgol uwchradd. Pleser pur oedd gweld llond y sêd fawr ohonynt ar ddiwedd y gymanfa.

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cyfrannu at CD Damon Allbarn a'i fand Fel y nodwyd y mis diwethaf bu'r côr yng Nghastell Penrhyn yn cymryd rhan flaenllaw mewn recordiad o grynoddig gan Damon Allbarn, prif ganwr *Blur* yn y 90au ac a fu'n aelod o rithfand roc arall o'r enw *Gorillaz*. Yn ychwanegol at hynny, mae'r canwr roc o Lundain yn rhan o fand mawr arall o'r enw *The Good, the Bad and the Queen* a *Rocket Juice and the Moon*. Bydd mwy o fanylion am y CD newydd, lle mae'r côr yn canu fel cefndir mewn pedair cân o eiddo Allbarn yn ymddangos yn nes ymlaen y flwyddyn hon. Byddwn yn gallu cyhoeddi mwy o wybodaeth am y prosiect bryd hynny.

Zip World Rocks, 23 Mehefin 2018 gyda Mike Peters a Slade

Nawr, mae Côr y Penrhyn yn paratoi i ganu gydag un arall o gewri'r byd roc, sef Mike Peters o'r grŵp, Yr Alarm. Bachgen o ardal Dysarth yw Mike Peters ac mae wedi perfformio ar brif lwyfannau roc y byd gan ddenu miloedd o gefnogwyr. Yn anffodus, dioddefodd Mike o ganser deirgwaith i gyd ac fe aeth ei wraig, Jules, i lawr efo'r un clefyd dychrynlyd. Wrth orwedd yn ei wely'n gwella ar ôl derbyn triniaeth yng Nghanolfan Ganser Gogledd Cymru penderfynodd Mike ei fod am geisio cefnogi'r bobl sy'n gweithio i leddfu'r clefyd ac i helpu'r rhai hynny sydd wedi darganfod eu bod dan effeithiau'r salwch ofnadwy hwn. Dyna pryd y daeth y syniad am gyngherddau roc *Cariad, Gobaith a Nerth* i'w feddwl.

Taith Gerdded

Yn ogystal â'r cyngerdd roc mae Mike Peters wedi trefnu taith gerdded 20 cilomedr Snowdon Rocks am £20 i rai dros 18 oed ac am ddim i'r rheiny sy'n ieuengach. Bydd y cerddwyr yn cael ymuno mewn taith fydd yn cwmpasu Cwm Idwal ond bydd dewis i'r rhai

mwyaf heini ddringo drwy'r Twll Du ac i ben rhai o gopaon uchel Eryri.

Slade yn ymuno yn y perfformiad

Bydd y côr yn perfformio ym Ngwlad Zip Eryri (Y Wifren Wib) ar Fehefin 23 ac mae tocynnau i'r perfformiadau gan Mike Peters a'i fand a llu o artistiaid eraill gan gynnwys y grŵp roc anferth, Slade, ar gael yn swyddfeydd y Wifren Wib. Mae tocynnau i'r cyngerdd roc yn costio £15 i rai dros 18 oed a £5 i rai dan 18.



Mike Peters a sefydlodd Snowdon Rocks ddeg mlynedd yn ôl wedi iddo ddiodeff o ganser.

Norwy, Llandudno a Thalybont

Ar ben yr holl brysurdeb hwn, yn ystod pyhefnos gyntaf Mis Mehefin aeth nifer o aelodau'r côr ar ymweliad â Stavanger yn Norwy a bydd adroddiad llawnach am yr ymweliad hwnnw'n ymddangos yn y rhifyn nesaf. Hefyd bu'r côr yn canu ar fferm Glan y mor, Talybont mewn ymddangosiad ar raglen Al Murray ac yn ymddangos yng nghapel Sant Ioan, Llandudno.

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Creffttau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

L. Sturrs
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Brechdan i arab croes (4)
- 5 Rhyw we yn dal anifail yn gaeth (4)
- 7 Gwerthfawrogi a meddwl y byd ohono (7)
- 8 Arferit rywsut fynd ar ôl y cant i roi llefydd iddynt fyw (8)
- 10 Llund nyth yn ddi-gytsain (4)
- 12 Cychwyn hoel ei law parod yn rhoi cymorth (4)
- 14 Gwneud hen un yn hollol gyfoes (8)
- 16 Yr amseroedd byrraf, tybed (8)
- 17 Sali wedi drysu, honno yw'r un lân yn ôl y gân werin (4)
- 18 2018 ---- Domini, eleni (4)
- 19 Cwrdd (8)
- 22 Clwyfwyd (7)
- 23 Gwaith Morus a'i lein ddillad (4)
- 24 Yr hyn wna'r mynyddoedd mawr yn ôl Ceiriog (4)

I LAWR

- 1 Tanwydd ar y traeth (4)
- 2 Fel dod i'th ymyl ddwywaith (4)
- 3 Cadw'n iach drwy fod yn lân (8)
- 4 Stilio o hil gerdd (4)
- 5 O lenwi rhodd rywsut i fod yn arbennig o dda (8)
- 6 Llu da yn ddi-drefn yn y golau llachar (4)
- 9 Dyma geir o 4 I Lawr (7)
- 11 Dod o fro gas yn drwsgl (7)
- 13 Hagr ar draws gwlad er dod a goleuni (8)
- 15 Ai dyma'r lle am antur yn Arfon ers 1984? (8)
- 18 Oherwydd mewn llys barn (4)
- 19 Llygaid sy'n sylwi'n fanwl (4)
- 20 Academi actio enwocaf Prydain yn Llundain (4)
- 21 Angerddol, fel y "---- ddistawrwydd" (4)

ATEBION CROESAIR MAI 2018

AR DRAWS 1 Cad, 3 Mas, 5 Cast, 8 Losin, 9 Gwrachod, 10 Genwair, 12 Yn Dew, 13 Uno, 15 Print, 17 Gem, 19 Tyrol, 20 Cwmpawd, 23 Gwarant, 24 Gofal, 25 Punt, 26 Non, 27 Iau

I LAWR 1 Colegau, 2 Dwsin, 3 Manna, 4 Segur, 5 Corwynt, 6 Sychedig, 7 Ydyw, 11 Iar, 14 Ochrgamu, 15 Palmant, 16 Naw, 18 Medalau, 19 Tagu, 20 Cetyn, 21 Mygyn/Mwgyn, 22 Anfri

Prin oedd y camgymeriadau. Cafwyd ‘Cytun’ yn lle ‘Cetyn’, ‘Ydyn’ yn lle ‘Ydyw’ ac ‘Yn Don’ yn hytrach nag ‘Yn Dew’.

Mae'r canlynol i'w canmol am groeseiriau cywir : Gill King, Mynydd Llandygai; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; J.R. ac M.A. Jones, Llanllechid; John H. Evans, Llanberis; Angharad Watkins a Huw Pritchard, Caerdydd; Gwenda Roberts,

1			2		3		4		5			6
			7									
8	9								10		11	
12			13		14		15					
16									17			
18					19				20			21
			22									
23									24			

Rhosmeirch; Elin Pritchard, Rachub; Iona Williams, Llanddulas; Gareth William Jones, Bow Street; Rita Bullock, Bethesda; Dilys Parry, Rhiwlas; Doris Shaw, Bangor; Dafydd Evans, Penisarwaun; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Dilys W. Griffith, Abergele; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont.

Yr un sy'n gyntaf allan o'r het am y wobr y tro yma yw ymgais Gaynor Elis-Williams, 55 Ffordd Carneddi, Bethesda, Gwynedd LL57 3SE. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn 6 Gorffennaf, 2018 i ‘Croesair Mehefin, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 6 Gorffennaf, 2018 i ‘Croesair Mehefin’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Mehefin 17: Parchg. Marcus Robinson.
Mehefin 24: Y Gweinidog.
Gorffennaf 1: Y Gweinidog (Cymun).
Gorffennaf 8: Canon Idris Thomas.
Gorffennaf 15: Parchg. Geraint Hughes.

Oedfaon am 5.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 yb. (Cau Sul olaf ym Mehefin.)

Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysor
Mis llawn o weithgarwch fu mis Mai i'r ieuencid yng Ngharmel. Mis Cymanfa Dosbarth Bangor a Bethesda yw hwn wedi bod ers llawer o flynyddoedd, ond fe gafodd ei chynnal am y tro cyntaf un yng Nghapel Emaus, Bangor eleni. Cafodd yr ieuencid a'r plant eu gwobrwyo am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd tystysgrifau a gwobrau ariannol i bawb am ddysgu adnodaau, emynau a straeon o'r Beibl, yn ogystal â llunio gwaith llaw amrywiol. Cafwyd arddangosfa yng Nghapel Carmel hefyd ar gyfer yr arholwraig, Mrs. Delyth Murphy, a ddaeth i ymweld â'r Clwb cyn y Gymanfa. Yn ystod y Gymanfa 'roedd tri o aelodau'r Clwb yn gyfrifol am eitem gerddorol, gydag Elen Wyn a Beca Nia yn canu'r ddeuawd "Benedictws" o waith Robat Arwyn, gydag Owain Morgan yn cyfeilio iddyn' nhw. Yn dilyn eu datganiad 'roedd y gymeradwyaeth gynnes yn llenwi'r Capel. Diolch hefyd i Mr. Neville Hughes a Mr. Joe Hughes am eu gwaith di-flino am flynyddoedd lawer yn ysgrifennydd a thrysorydd y Gymanfa.



Y criw o flaen "Tweed Mill"

Clwb Gwau
Ni allai aelodau'r Clwb Gwau fod wedi dymuno cael gwell diwrnod i ymweld â Llannerch y Môr a'r "Tweed Mill" gerllaw Llanelwy. 'Roedd y tywydd yn hynod o braf, ac 'roedd yr aelodau a'r cyfeillion eraill oedd ar y trip wedi cael blas ar siopio yn y ddau le! Diolch i Steve hefyd am ddreifo'r bws mor ofalus.

Te Bach
Cawsom de bach arbennig ar 21 Mai i ddathlu 21 o flynyddoedd y Clwb Gwau. Tuag at achosion da y rhoddwyd y rhan fwyaf o'r gwaith gwau, a diolch i bawb sydd wedi gwau dros yr holl flynyddoedd! Diolch i Karen a genod Caffi Coed y Brenin am wneud y te bach a'r gacen ardderchog.



Arfona Edwards yn torri cacen y dathlu

I gloi'r prynhawn clywsom ddarlleniad o benillion gan Dilwyn Owen, Erw Las, a gyfansoddwyd yn arbennig ganddo i'r Clwb. Roedd chwerthin dros y lle wrth i bawb wrando ar y geiriau doniol a ffraeth. Dyma'r gerdd :

I'r Clwb Gwau – Pen-blwydd Hapus yn 21 oed
O'r wawr hyd oriau'r hwyrnos
Mae'r traffig, gwir yw'r gair,
Yn gwau ei ffordd i'r gweithle
Fel 'dodgems' mewn rhyw ffair.

Mae rhai yn gwau hen straeon
I sgafnu ar y gwaith
Gan sôn am hen amseroedd
Ac un neu ddau am daith.

Er tawel llawr y ffatri
Mae'r gweill yn brysur nawr,
A'r cynnyrch mor amryliw
Â'r enfys dros y wawr.

Cewch yno falaclafa
Neu siol o 'purl' a 'plain',
Mae'n ddrwg na allaf helpu -
Mae mysedd i'n rhy hen!

Hip Hip Hwre! Yn ddauddeg un
Mae sôn amdanoch dros y byd,
Ond beth am greu rhyw sgarff mawr hir
O gwmpas Rachub i'w gadw'n glyd?

Diolch
Dymuna Jean Williams, 60 Maes Bleddyn, Ellen, Janet, Philip, Gary a'r teulu cyfan ddiolch a'm bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a Thaid annwyl sef Jack Williams neu Jack 60 fel 'roedd pawb yn ei adnabod. Diolch am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniwyd, a throsglwyddwyd yr arian er cof i Gronfa Meddygfa Bethesda ac i Ysgol Llanllechid. Maent yn hynod o ddiolchgar i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams ac i Mr Gareth Williams am eu gwasanaeth parchus.

Bedydd
Hoffai Ceri, Lee, Ela Grace a Nansi Grace ddiolch i'w holl deulu a ffrindiau am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd Nansi ar achlysur ei bedydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr hefyd i Mrs Helen Williams, Capel Carmel a'r Gweinidog Mr Pritchard am fedyddio Nansi.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i Martha Glain a Begw Angharad, Mignant, Llanllechid, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Yr Urdd eleni. Cafodd Martha y drydedd wobwr am ysgrifennu rhyddiaith i rai dan 19 oed, a chafodd Begw yr ail wobwr am ysgrifennu rhyddiaith i flwyddyn naw. Da iawn chi genod! Dwy chwaer ddawnus!

Blwch Ffôn
Oherwydd diffyg defnydd, mae'r blwch ffôn wrth y siop yn Rachub wedi'i ddatgysylltu ers misoedd ac yn ddiweddar symudwyd y blwch. Y ffôn cyhoeddus agosaf yn awr yw'r un ym Methesda.

Parcio
Mae pobl wedi bod yn parcio eu cerbydau y tu allan i rifau 4 a 6 Ffordd Llanllechid ers

blynyddoedd, ond achoswyd anhawster yn ddiweddar am fod pobl wedi dechrau parcio dros y ffordd (y tu allan i rifau 5 a 7) hefyd. Gresyn fod rhai'n parcio ger y swigod yn y palmantau sydd yno i ddynodi safle diogel i gerddwyr groesi'r ffordd.

Damwain

Roedd Megan a Deri Tomos, Sychnant, yn falch iawn o glywed bod eu mab, Cynon, yn iawn ac yn ôl yn ei waith wedi iddo gael damwain car yn ddiweddar. Bu cryn dipyn o ddifrod i'r car.

Gwaeledd

Dymuna Melanie Tugwell ddiolch i bawb am eu geiriau caredig wedi iddi fod yn wael yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Derek, Maes Bleddyn ddiolch yn fawr i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

Ti a Fi Rachub

Ar ôl 8 mlynedd yn rhedeg Ti a Fi Rachub mae Keilly Tugwell-Williams yn gorffen yn y swydd. Be nawn ni bob bore Dydd Gwener heb Anti Keilly rŵan? Diolch i chdi Keilly am dy holl waith caled dros y blynyddoedd! Ti wedi gweld llawer o blant yr ardal yn tyfu trwy Ti a Fi! Diolch yn ogystal i Anti Tracey sydd hefyd yn gorffen yn ei swydd. Mae Tracey wedi bod yn gymorth mawr i Keilly. Diolch am y te, coffi a'r sgwrs bob wythnos Tracey!!

Neges gan Keilly - Ti a Fi Rachub

Diolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu dros yr 8 mlynedd ddiwethaf, dwi wedi mwynhau rhedeg Ti a Fi yn llywyddiannus iawn ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd a chael amser hapus iawn. Diolch o galon am yr holl anrhegion arbennig iawn a'r negeseuon lyfii. Mi fydda i yn colli'r plantos yn fawr iawn. Diolch



i Tracey am yr holl gymorth, dwi'n gwerthfawrogi yn fawr iawn. Cariad Mawr, Anti Keilly.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd y Clwb ar bnawn Mercher gfed o Fai. Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i Avril sydd wedi bod yn wael. Hefyd mae amryw o'r aelodau wedi cael gwaeledd ac rydym yn dymuno gwellhad iddynt hwythau. Mae arian wedi dod i law gan Gyngor Gwynedd. Hefyd cawsom rodd o £50 gan Eirwen Smith o Dregarth, er cof am ei merch. Yna cyflwynwyd y siaradwr gwadd sef y Parch Geraint Roberts. Cawsom sgwrs ddiddorol iawn ganddo. Roedd yn son am ei waith a'r lleoedd yr oedd wedi gweinidogaethu ynddynt. Paratowyd y te gan Magaret Rees Williams ac Eirwen. Rhoddwyd y raffl gan Glenys Roberts ac enillwyd gan Medi. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 6ed.

Clwb Hanes Rachub / Caellwngrydd / Llanllechid

Arddangosfa

Hen Luniau

o Rachub , Caellwngrydd a Llanllechid

Yn Ysgoldy Capel Carmel

p'nawn Gwener, Mehefin 22ain, 1pm - 4pm

a dydd Sadwrn 23ain, 10am - 4pm

Clwb Hanes Rachub / Caellwngrydd / Llanllechid

Ffôn 01248 601880 , e bost - hanesrachub@outlook.com

Mynediad i'r Arddangosfa

£1

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Croesawyd y Dr. Dafydd Roberts [Tregarth] atom i Festri Carmel, i gyflwyno sgwrs ddiddorol ar ‘Dun bwyd y chwarelwr’. Cyfeiriodd at arferion bwyta yn gyffredinol yn ardaloedd y chwareli, gan gyfeirio at ambell ddyfyniad llenyddol gan fawrion ein llên, - awduron fel Kate Roberts a T.Rowland Hughes. Sonia Kate Roberts yn ‘Y Lôn Wen’ am y ‘Swper Chwarel’ traddodiadol, sef tatws a chig ac unrhyw lysiau eraill, - sef platiaid maethlon i ddyn oedd wedi gweithio'n galed yn y chwarel drwy'r dydd. Roedd bara haidd da ar y fwydlen yn gyson hefyd, a phwdin poeth i ddilyn pob amser. Roedd rhan ganol y 19fed ganrif yn gyfnod maethlon iawn o ran bwyd i'r chwarelwyr, ond yna, gwaethygodd pethau rhwng 1890 a 1918 pan ddaeth y dirwasgiad, y Streic a'r Rhyfel. Dim ond bara menyn [gyda rhywfaint o amrywiadau], oedd y chwarelwyr a'u teuluoedd yn ei fwyta ar un cyfnod, ac yn yfed gormodedd o de. Oherwydd y tlodi dychrynlyd, ni chawsai hyd yn oed eu babanod fwyd maethlon chwaith, felly roedd iechyd cenhedlaeth o blant yn fregus ddychrynlyd. Erbyn 30'au'r 20fed ganrif, roedd pryder mawr am iechyd y chwarelwyr a'u teuluoedd, gan fod canran uchel iawn o ddioddefwyr y ‘Diciâu’ yn dod o ardal y chwareli. Gwnaethpwyd ymdrech i roi ‘canteen’ yn y chwarel ym 1938, ond methiant oedd hynny gan na wnaed defnydd ohono gan y chwarelwyr.

Syml a sylfaenol iawn oedd cynnwys y tun bwyd hefyd. Caed brechdan neu ddwy, darn o gaws, neu ŵy wedi ei ferwi'n galed. Yn aml roedd tamaid o gacen yn y tun, - ‘cacen bonc’ neu ‘gacen bwddin’ efallai. Roedd llefrith yn cael ei roi mewn hen botel ffisig, ac roedd y dail te a'r siwgrwr yn cael ei gadw mewn tun bach oedd yn cynnwys dwy adran, a chaead ar bob pen. Yna, ymunodd yr aelodau yn y sgwrs, gan ein hatgoffa o sut oedd yr hen bobol yn addasu i'w sefyllfaoedd, - roedd yna amryw o ffyrdd o gael rhywbeth i'w fwyta! Mi fyddai pobol yn casglu eu bwyd e.e. madarch, berw'r dŵr, mwyar duon, gwichiaid a choccos a.y.y.b. Byddent hefyd yn hela cwningod, yn pysgota ac yn cadw moch. Os oeddent yn helpu ffermwr i gneifio neu i gynaeafu, yna byddent yn cael caniatad i blannu rhes o lysiau yn ei gae, ac os oedd arnynt angen crasu torth, yna defnyddient y becws lleol i wneud hynny. Roedd yr atgofion yn llifo gan yr aelodau, gan ddychwelyd yn y diwedd at yr hen ffefryn, ‘Madam Chips’ a'i hanesion gwych. Cafwyd uchafbwynt annisgwyl i'r noson gyda perfformiad arbennig o gân Madam Chips gan neb llai nag Islwyn! Diolch Islwyn, a diolch Dafydd am noson ddifyr dros ben! Cofiwch am yr arddangosfa luniau, -Festri Carmel, - Dydd Gwener, Mehefin 22 [1pm-4pm], a dydd Sadwrn, Mehefin 23, [10am-4pm].

Ysgol Llandygai

Balchder

Roedd staff a rhieni yr ysgol yn hynod falch o lwyddiant y Grŵp Dawnsio Creadigol yn ddiweddar pan fu'r parti yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanfair ym Muallt. Cawsant ddiwrnod bendigedig yn crwydro'r maes a sgwrsio gyda disgyblion o wahanol ysgolion ar draws Cymru. Diolch i Ms Karen Desch am ei gwaith caled gyda'r plant.

Magi Ann

Daeth Leusa Mererid draw at ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyflwyno apiau newydd sbon yn seiliedig ar gyfres ddarllen Magi Ann .Mae yr adnodd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn y dosbarthiadau. Dyma adnodd gwerthfawr iawn i'r ysgol ac i'r cartref er mwyn i rieni gael cyfleoedd i gyd-ddarllen gyda eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prosiect Ymchwil Hyder Merched

Mae yr ysgol wedi bod yn ffodus iawn yn cael ei dewis i gynnal ymchwil ar hyder merched yn y dosbarth a thu hwnt. Mae disgyblion Dosbarth Gwawr wrth eu boddau yn gweithio gyda chriw PONTIO yn wythnosol er mwyn creu deunydd i'r ymchwil yma.

Yr Urdd

Mae disgyblion Dosbarth Gwawr yn derbyn gwersi ymarfer corff gan aelod o weithlu'r Urdd. Mae'r gwersi wedi bod yn canolbwyntio ar sgiliau pêl gwahanol chwaraeon. Braf cael croesawu wyneb newydd i gynnal gwersi o'r fath.



Ymweliad Addysgol

Aeth disgyblion Dosbarth Tirion draw i Bentref Peryglon yn ddiweddar i ddysgu am beryglon yn y cartref.

Beicio Diogel

Mae disgyblion hynaf yr ysgol wedi bod yn derbyn hyfforddiant ar sut i deithio yn ddiogel ar feiciau.

Noson Gwricwlaidd Iaith

Diolch i Mr Dylan Bryn, Menter Iaith Bangor, Nia Cerys BBC ac Aled o Lyfrgell Bangor am eu cyflwyniadau diddorol a symbylus wrth bwysleisio pa mor bwysig yw bod yn ddwy ieithog.

Fel rhan o'r noson cafwyd sgwrs a chyflwyniad hyderus a graenus gan brif ddisgyblion yr ysgol ble yr oeddynt yn esbonio yn union beth mae'r ysgol yn ei wneud i annog defnyddio y Gymraeg yn y dosbarthiadau ac hefyd tu allan i furiau'r dosbarth. Diolch i Palas Print am nwyddau i'w gwerthu ar y noson. Noson lwyddiannus yn ôl canlyniadau yr holiaduron roddwyd i bawb fynychodd y noson.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Cuarnarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf,
Pentir, LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Eglwys St Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Mai 2018
1af Rhif 25 Helen Bradley, Rhiwlas
2ail Rhif 9 Beryl Edward, Bethesda
3ydd Rhif 60 Laura Hosker, Deiniolen

Bedydd

Dydd Sul 20 Mai, bedyddiwyd Owi Bryn
Gwilym Roberts, mab bach Catrin a Bryn.
Roedd y gwasanaeth dan ofal Y Parch.
Christina McCrea.

Garddwest

Cynhalwyd ein Garddwest flynyddol eleni
yn Ngardd Y Ficerdy, Pentir, ar brynhawn
Sadwrn y 26ain o Fai. ‘Roedd amryw o
stondinau diddorol a chystadleuaeth arbennig
i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Coffa Leslie
Crocombe. Yr enillwyr oedd Dosbarth
Meithrin- Daniel a Jessica, Dosbarth Babanod
- Kai, a’r Dosbarth Iau- Miranda, Roedd raffl
ar gyfer Teisen a’r enillydd oedd Mrs. Gwenda
Bowen, Bethesda. Ar ddiwedd prynhawn
llwyddiannus, a fwynhawyd gan lawer,
diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Yn
dilyn yr arddwest cafwyd pryd blasus yn Y
Llechen, Talybont. Diwrnod i’w gofio!

Caws a Gwin

Bydd noson Caws a Gwin yn cael ei chynnal

yn Y Ganolfan, Glasinfryn ar Nos Sadwrn
y 30 Mehefin am 6.30pm, Croeso cynnes i
bawb.

Gwasanaethau’r Sul

Mae’r gwasanaethau am 9.45yb

- 17.6.18. Cymun Bendigaidd
- 24.6.18. Boreol weddi
- 1.7.18. Cymun pawb
- 8.7.18. Boreol weddi
- 15.7.18. Cymun bendigaidd
- 22.7.18. Boreol Weddi

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y
gwasanaethau.

Newyddion o ‘Parchu Pentir’

Cinio Mawr

Bydd y digwyddiad blynyddol ‘Cinio Mawr’
yn cael ei gynnal am 1.00 yh ar 23 Mehefin
ar y llwybr sy’n arwain o Sgwâr Pentir am
Rhyd-y-Groes. Dewch â’ch bwyd a diod
gyda chi.

Ras Hwyl Pentir

Cynhelir Ras Hwyl Pentir Nos Fawrth,
10 Gorffennaf am 7.00 yh. Bydd y ras yn
cychwyn o Sgwâr Pentir a bydd y cofrestru
ar lein yn agored o 5 Mehefin. I’r rhai sy’n
cofrestru ar lein, y gost ydy £5 a £2.50 i
blant dan 15 oed. I’r rhai sy’n cofrestru ar
y diwrnod bydd hyn yn agored am 5.45
yh gyda’r gost yn £6 ac £3 i blant dan 15
oed. Rhaid i blant dan 11 oed redeg gydag
oedolyn.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mai aeth rhai o aelodau’r
gangen i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Arfon,
yn bennaf i drafod yr anghydfod rhwng
Cyngor Gwynedd a rhai o’i gweithwyr e.e.
y cynnig i dorri’r taliad ychwanegol am
oriau anghymdeithasol – cynnig a fyddai’n
effeithio yn bennaf ar weithwyr efo cyflogau
isel a merched. Cytunwyd i gwrdd â’r
undebau i wrando ar eu safbwynt ac i gael
gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf.
Yna, yng nghanol y mis, aeth nifer o
aelodau’r gangen i gyfarfod pob aelod yr
etholaeth yng Nghaernarfon; yn bennaf
i wrando ar swyddog undeb am effaith
cyflwyno credyd cynhwysol y Toriaid. Bydd
hyn yn dechrau yn yr ardal hon tua diwedd
y flwyddyn, gyda sawl effaith hir-dymor e.e.
rhai o’r bobl anabl yn colli peth o’u hincwm
a phobl yn gorfod disgwyl am bump

wythnos cyn cael y taliad cyntaf.
Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod deufisol y
gangen ym Methesda, yn bennaf i drafod yr
anhawster parcio ger Ysbyty Gwynedd yn
ystod y dydd a phenderfynwyd ysgrifennu
at brif weithredwr y Bwrdd Iechyd am y
problem.
Hefyd, cafwyd adroddiadau am
Lywodraeth Cymru (e.e. mwy o arian
ar gyfer ysgolion meithrin er mwyn
helpu cyrraedd y targed o filiwn o
siaradwyr Cymraeg), Cyngor Gwynedd
(e.e. cefnogaeth y cyngor i gael treth ar
dwrastiaeth)
Cyngor Bethesda (e.e. y cyngor yn
cymryd cyfrifoldeb am Lys Dafydd) ac
Ewrop (e.e. Prydain yn newid o fod yr
economi sy’n tyfu gyflymaff i’r economi sy’n
tyfu arafaf yn Ewrop ers y bleidlais i adael.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd iau
Bwyd i’w gario allan
Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o’ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO’R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Neuadd
Ogwen,
Bethesda

Dydd Llun, 25 Mehefin
Dydd Mawrth, 26 Mehefin



Sioe
Na, Nel!
gan Arad Goch

Bydd tair sioe gyda ni gan gynnwys:
25/6 – 1pm
26/6 – 10am
26/6 – 1pm
Sioe lwyfan Gymraeg newydd sbon...

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

Ysgol Pen-y-bryn

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau anferthol i Hannah Hughes am ddod yn fuddugol yng ngystadleuaeth “Gwaith Creadigol 3D” yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2018. Rydym yn hynod falch o dy lwyddiant, ac yn edrych ymlaen i glywed am dy lwyddiannau yn y dyfodol!

Nofiw'r o Fri!

Mae Gethin Roberts yn dod ag enw da iawn i'r ysgol trwy ei ddoniau ym myd chwaraeon, yn arbennig gyda'r nofio. Mae'r ymroddiad a'r dyfalbarhad sydd ganddo yn esiampl i bawb. Yn ddiweddar bu'n cystadlu mewn chwe ras yn Abertawe, gan ennill ei amser gorau (PB). Pob lwc yn y dyfodol Gethin.

Athletau'r Urdd

Dyma'r criw a fu'n cymryd rhan yng nghystadleuath atletau'r Urdd yn Nhreborth! Roedd hi'n ddiwrnod braf, pawb wedi mwynhau cymryd rhan, pawb wedi trio'u gorau glas! Roedd llawer iawn yn llwyddiannus ac yn mynd yn eu blaenau i'r rownd gyn-derfynol yn Nhreborth yn fuan! Da iawn chi!

Ymweliad Dŵr Cymru

Ar Ddydd Gwener, 11eg o Fai daeth Arfona Evans o Ddŵr Cymru atom i gynnal diwrnod o weithgareddau. Cafodd pob dosbarth yn ei dro gyfle i glywed ychydig am y math o waith mae Dŵr Cymru yn ei wneud o ddydd i ddydd- o fynd ati i sicrhau cyflenwad dŵr glân i dai yng Ngymru i sut maent yn mynd ati i adnewyddu peipiau. Cawsom hyd yn oed wybod sut mae dŵr yn gallu teithio yn fertigol i fyny mynydd! Gosododd Mrs Evans her : cafodd pob grŵp 1 litr o ddŵr ac roedd yn rhaid creu cyflenwad er mwyn i'r dŵr deithio o'r gronfa ddŵr i'r amrywiol adeiladau ar y map. Wel am hwy! Diolch yn fawr iawn Mrs Evans!



Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau anferthol i bawb a gystadlodd yn y cwis llyfrau eleni. Cafodd grŵp o flwyddyn 6 sef Rhiannon, Cian, Hannah a Callum y drydedd wobr. Da iawn!

Ymweliad Caergylchu a'r Warws Werdd

Fel rhan o thema 'Sbwriel cafodd dosbarth Carnedd gyfle i ymweld â Chaergylchu a Warws Werdd, Cibyn yng Nghaernarfon. Cawsom gyflwyniad arbennig gan Gwenllian yn esbonio'r broses o ailgylchu a'r hyn sy'n digwydd i'r deunyddiau ar ôl iddynt adael ein cartref. Diddorol iawn oedd gweld y peiriannau wrth eu gwaith yn didoli a gwasgu'r deunyddiau. Yn ogystal, cawsom gyflwyniad gan Haydn o'r Warws Werdd a gweld fod modd ail ddefnyddio deunyddiau fel sofffa, dillad neu ddodrefn. Roedd y diwrnod yn fuddiol ac rydym yn edrych ymlaen i barhau gyda gwaith y thema yn y dosbarth.



Carneddi

Capten y Merched



Menna Roberts

Llongyfarchiadau i Menna Roberts, 84 Ffordd Carneddi ar gael ei dyrchafu'n gapten adran y merched yng Nghlwb Golff Maesdu, Llandudno. Dechreuodd ar ei swydd yn niwedd Ebrill. Mae Menna wedi bod yn aelod yn y clwb ers dros bymtheng mlynedd ac yn mwynhau cystadlu mewn sawl gornest golff gartref ac oddi cartref. Yn y gorffennol bu'n aelod ac yn gapten adran y merched ym Mangor a bu'n cynrychioli'r clwb ar bwyllgorau sirol.

Ers ymuno â Maesdu mae wedi cymryd rhan weithredol ym mywyd y clwb ac wedi gwasanaethu fel trysorydd adran y merched. Eleni, bu'n amlwg yn y trefniadau i gael diwrnod wedi ei neilltuo ym Maesdu ar gyfer codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy a gynhelir y flwyddyn nesaf yn Llanrwst. Mae'r clwb wedi cytuno i roi cyfraniad i'r ŵyl trwy roi cyfleusterau'r cwrs i'r Eisteddfod ac fe gynhelir y gystadleuaeth ar 18 Gorffennaf. Dylai unrhyw barau sy am gystadlu gysylltu â Chlwb Golff Maesdu am fwy o wybodaeth.

Dewis elusen Menna yn ystod blwyddyn ei chapteniaeth fydd Ambiwylans Awyr Cymru.

Ymgymrw'r adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid Bethesda

01248 601052